


LLONGYFARCHIADAU




PARTI PENTREF




CANLYNIADAU

ECO'r Wyddfa

Rhif: 392
Hydref 2011
Pris: 50c

# Ieuenctid Ysgolion Lleol yn Llwyddo...

## Llwyddiant Cylch Meithrin Llanrug.

Mae Cylch Meithrin Llanrug yn fwrlwm o brysurdeb ar ddechrau'r tymor newydd ac yn dathlu hwb ariannol, diolch i raglen Arian i Bawb Cymru y Loteri.



Dyfarnwyd grant o £4,974 iddynt i'w galluogi i brynu offer chwarae newydd a datblygu gweithgareddau awyr agored ar gyfer y plant sy'n dod i'r Cylch.

Yn ogystal â phrynu tŷ bach twt,twb tywod, ceir a thryciau ac yn y blaen, fe fydd cyfle i'r plant wneud ychydig o waith garddio gan fod offer garddio a dillad pwrpasol yn rhan o'r cais.

Dywedodd Nichola Griffiths-Jones, Arweinydd Cylch Meithrin Llanrug, 'Dyma newyddion gwych i'r Cylch Meithrin! Mae cael swm o arian fel hyn yn golygu y gallwn brynu offer chwarae newydd a chyffrous i'r plant fel y gallan nhw gael hwyl a phrofiadau gwerthfawr wrth chwarae yn yr awyr iach. Rydym yn edrych ymlaen at gael chwarae y tu allan a manteisio ar y gwahanol dymhorau beth bynnag fydd y tywydd ac ni fyddai'n bosib gwneud hyn heb gefnogaeth Arian i Bawb Cymru.'

Mae Cylch Meithrin Llanrug yn darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i blant o bentrefi Llanrug, Cwm y Glo, Penisarwaun a Brynrefail.

Am wybodaeth bellach neu i dynnu llun cysylltwch â Nichola Griffiths-Jones ar 01286 674020.

Mae Arian i Bawb yn raglen grantiau sy'n anelu at wella cymunedau lleol a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

# a thuhwnt...




## Llongyfarchiadau i Tomos

Llongyfarchiadau calonnog i gyn ddisgybl ysgol Brynrefail sef, Tomos Emlyn Jones o Lanrug, ar ennill ei le yng ngharfan Cymru dan 19 ar gyfer y twrnamaint dan 19 yn Slofenia ar ddiwedd mis Medi.

Y mae'r chwaraewr dawnus, sydd yn gefnwr gydag academi Oldham Athletic, wedi ei ddewis ar ôl serennu gyda'r tîm dan 19 Cymru, dan reolaeth Brian Flynn, mewn gemau cyfeillgar yn erbyn Bwlgaria ar ddechrau'r tymor.

Yn ystod ei amser ym Mrynrefail bu Tomos yn aelod o dîm pêl-droed yr ysgol a enillodd Cwpan Cymru deirgwaith. Y mae yn awr yn haneru ei amser rhwng hyfforddi gyda chlwb pêl-droed Oldham Athletic ac astudiaethau BTEC yng ngholeg Bury.

## Seren Aur



Bethan Roberts, Penisarwaun yn dathlu 4 gradd A*

## TREFN NEWYDD

Oherwydd y drefn newydd sydd ganom i gynhyrchu'r papur rhaid i bob deunydd ar gyfer yr Eco fod i law erbyn y dyddiad a nodir. Os yn hwyr, ni fydd yn y papur. Hefyd disgwylir cael y deunydd yn electronig fel e-bost neu gyplysiadau e-bost os oes modd. Anfonwch at ecorwyddfa@gmail.com

**ECO'R WYDDFA**

**RHIF 392**
**HYDREF 2011**

*Argraffwyd gan Wasg Dwyfor*
*Penygroes 01286 881911*

*Cydnabyddir cefnogaeth*
*Bwrdd yr Iaith Gymraeg*
*i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com

neu
Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD**
**Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis (01286) 670726)
g.elis029@btinternet.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
elfionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Elthinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Elthinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Aal-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS WENER, 16 HYDREF**
Os gwelwch yn dda.
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS FAWRTH, 27 HYDREF**
Dyddiad Gosod
**NOS FAWRTH, 20 HYDREF**
Sefydliad Coffa Llanrug



# RNIB Cymru

**d/o North Wales Society for the Blind**
**325 Stryd Fawr, Bangor**

Annwyl Eco'r Wyddfa

Mae RNIB Cymru yn falch o gyhoeddi bod Gwasanaeth Hawliau Lles ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn wedi cychwyn. Bydd y gwasanaeth ar gael i unrhyw un sy'n byw yn yr ardaloedd hyn sydd wedi colli eu golwg – os ydynt wedi eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ai peidio. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu am 2 flynedd gan y Gronfa Loteri Fawr a bydd yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â RNIB Cymru

Gall colli'ch golwg arwain at gostau ychwanegol sy'n atal rhai rhag mynd o gwmpas tasgau dyddiol. Bydd y gwasanaeth yn helpu'r bobl hyn i gael gwybod yn union beth y maent yn gallu hawlio, yn eu helpu i lenwi ffurflenni neu eu llenwi gyda nhw, yn herio dyfarndiadau budd-dal neu benderfyniadau ac yn darparu cynrychiolaeth at Dribiwnlysoedd os oes angen. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn derbyn popeth y mae ganddynt hawl iddo.

Yn 2010/11 yn unig, mi wnaeth Gwasanaeth Hawliau Lles RNIB Cymru alluogi 484 o bobl i wneud ceisiadau am ychydig o dan £1 miliwn mewn budd-daliadau nad oeddynt yn ymwybodol eu bod â hawl iddynt. Ni all y gwahaniaeth mae'r arian hwn ei wneud i fywydau pobl gael ei ddiystyru.

Os ydych chi yn ymwybodol o rywun sydd yn byw yng Ngwynedd neu Ynys Môn a fuasai'n elwa o gael eu hasesu am fudd-daliadau, ffoniwch Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru ar (`10248) 353604, gan adael eu manylion. Fel arall, mae'n bosib gyrru'r ffurflen cyfeireb isod at RNIBCymruWRT@rnib.org.uk.

Gyda diolch am eich cefnogaeth

Ellen Lloyd

Swyddog Hawliau Lles




**Pwy sy'n Plygu**
**LLanberis nesaf**

# Urdd Gobaith Cymru

Annwyl Gyfaill

Tlws John a Ceridwen Hughes

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

* Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi'r gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
* Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

* Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yn iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.
* Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.
* Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
* Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth ar (01970) 613103 neu trwy e-bost: enfys@urdd.org.

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr

# Cymunedau Dwyieithog y Byd

Cynhelir arddangosfa a thrafodaeth ar y thema 'Cymunedau Dwyieithog y Byd' ar ddydd Mercher, 2 Tachwedd yn Stiwdio 1, Galeri, Caernarfon. Trefnir y digwyddiad gan Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor fel rhan o Ŵyl Gwyddorau Cymdeithas yr ESRC. Bydd croeso i bawb a'r mynediad am ddim.

Bydd yr arddangosfa yn cynnwys adroddiadau o lygad y ffynnon gan siaradwyr o ieithoedd lleiafrifol ledled y byd ynghylch hawliau iaith, defnydd iaith mewn bywyd preifat a chyhoeddus ac unrhyw ymgyrchoedd cymunedol.

Gyda'r nos cynhelir trafodaeth panel gyda siaradwyr y Fasgeg, Tibeteg, Lombardeg, Galiseg a Ndebele. Dan gadeiryddiaeth Bethan Jones Parry bydd y gynulleidfa yn cael holi'r panelwyr, a bydd cyfle i bawb rannu syniadau ar sut i wneud y gorau o'n hieithoedd bach. Ceir hefyd sgwrs gan yr Athro Margaret Deuchar, y Dr Peredur Davies a Marika Fusser am ganlyniadau ymchwil y Ganolfan Ddwyieithrwydd yn ogystal â cwis ieithoedd bach.

Rhaglen y diwrnod

* 4-7yh: arddangosfa
* 6-7yh: bwffe
* 7-83.yh: sgwrs a thrafodaeth panel

Bydd yr arddangosfa yn agored i bawb daro mewn, ond nifer cyfyngedig o lefydd sy ar gael ar gyfer y bwffe a'r drafodaeth. I gofrestru ar gyfer y noson, ffoniwch (01248) 382559 neu e-bostiwch m.fusser@bangor.ac.uk erbyn 17 Hydref.

# RHODDION

£20: Di-enw, Cwm y glo; Teulu'r diweddar Selwyn Griffith.
£10: Margaret ac Alwyn Jones, 5 Bro Elidir er cof am Ifor Phillips; Mrs Jane Roberts, Glaslyn, Waunfawr; Delyth, Kate a Dafydd er cof am Elfyn a Deiniol.
£5: Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm y glo; Catrin ac Elain Beech, Seibiant, Llanrug; Mrs Annie Thomas, Gilfach, Waunfawr; Lowri Elenid, Bryn Tirion, Llanberis; L.J. a Enid Roberts, Tanycoed; Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd Cwmyglo; Gwenda Jones, Bryntirion Penisarwaun; Haf Thomas, Buarthau Llanrug.
£2: Teulu Llwydfryn, Deiniolen.

# 'Ymhob un mae fy mab i'

Dyna yw llinell olaf ysgubol englyn Gerallt Lloyd Owen: Ymson Mam 1914-1918.

Er mai enwau yw'r meini di-wyneb,
dim ond enwau'n rhesi,
un bedd yw'r miliwn beddi,
ymhob un mae fy mab i.

Wythnos cyn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni aeth Mary a minnau gyda taith Seren Arian i ardal Ieper (Ypres) yng ngwlad Belg i ymweld â mynwentydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr oeddwn eisiau mynd yno ers sawl blwyddyn. Y mae pob cenhedlaeth dros bron i ganrif wedi chwilio am atebion pam na chyflawnwyd yr honiad mai hon oedd y 'rhyfel i ddiweddu pob rhyfel'. Y mae miloedd o gofebion sy'n cofnodi 'y rhwyg o golli'r hogiau' yn sgrechian arnom hyd heddiw. Effeithiwyd ar filiynau o deuluoedd heb wahaniaethu rhwng bonedd a thlawd, nac iaith na hil.

Ni fûm erioed ar daith mwy emosiynol. Mae'r rhifau yn unig yn rhewi dyn. 54,000 o enwau y rhai di-fedd ar furiau Porth Menin. 72,000 o enwau i'r rhai di-fedd ar Gofgolofn Thiepal ar y Somme. Y miloedd o feddau meini gwyn yn rhesi urddasol.

Y fath golli bywydau i 'ennill' ychydig lathenni. Y ffosydd dieflig yn gwau fel nadroedd ar hyd tir âr yr ardal, a ffosydd y gelynion ond tafliad carreg, heb sôn am fagnel a bidog oddi wrth ei gilydd. Oed y rhai a gollwyd.

'Wnaethoch chi ladd rywun yn y rhyfal?' oedd cwestiwn fy mrawd a minnau i Yncl Bob lawer tro. Ninnau yn ymfalchio yn y medalau na ddaeth erioed allan o'r bocs yn y cwpwrdd. Ni chawsom erioed ateb ganddo. O wybod ei fod yn 'machine-gunner' ym mrwydrau Passchendale, ac o fod yno erbyn hyn, mae'n siŵr ei fod wedi lladd cannoedd. Yn y cof yr arhosodd y profiadau am byth ganddo.

Fe fydd sawl profiad yn aros gyda mi am y daith hon.

Sefyll wrth fedd Hedd Wyn am 11a.m. ar Orffennaf 31, 94 mlynedd union i'w farwolaeth. A minnau, ar ran y cwmni, ar fin adrodd Englynion Coffa Williams-Parry dyma gloch y pentref cyfagos yn canu cnul. Arswydol o swreal.

Alwyn Hughes, un o'r cwmni, a'i fab Aled o Sir Drefaldwyn, yn acen unigryw y fro honno, yn adrodd geiriau mawreddog Ann, Dolwar Fach, uwch bedd ei ewythr Jac Edwards, Cwm Penanner.

'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd …'

Yn y 'Trench of Death' ble bu ymladd a darnio â'r bidogau, heb yr unlle i ddianc.

Ger cofeb Y Ddraig Goch i'r Cymry a gollwyd ym mrwydr ardal Mammetz Wood.

Dilyn ôl traed, gyda sylwebaeth tâp, o'r gell olaf at y stanc ble saethwyd unigolion 'ar doriad gwawr'. Escort Present Arms. Escort Aim. Fire. Sawl un diniwed a gerddodd y daith hunllefus honno wedi ei gyhuddo o fod yn 'fradwr'? Sawl teulu sy'n dal i gario'r graith.

Sefyll ar y cae ble bu'r gêm bêl-droed ryfeddol ar fore Nadolig cyntaf y Rhyfel.

Gweld ar fur Porth Menin yr enw Lt. Charles Douglas-Pennant, un o dri mab y Penrhyn a gollwyd yn y rhyfel. Minnau yn bump oed yn 1953 yn cerdded gyda gweddill plant Ysgol Llandegai i sgwâr y pentref i wylio dadorchuddio cofeb i'r tri ar ddarn o dir ger Lodge y pentref. Llawer atgof arall. Nid y lleiaf yr urddas a roddir i'r mynwentydd. Mor unffurf, yno'n linellau syth. Mor wir yw geiriau Gerallt.

O fewn ychydig ddyddiau cefais destunau Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl. Testun cerdd y Gadair oedd Yr Ymwelydd. Lluniais gerdd gaeth yn croniclo fy mhrofiadau ar y daith. Allan o 18 cerdd, fe welodd y Prifardd Meirion Evans yn dda i'w chadeirio. Hoffwn rannu y gerdd gyda chwi.

## YR YMWELYDD

O'n hiaith, geiriau haniaethol
a ddaw i'n hoes, ddoe yn ôl.
Bu colli mab yn 'aberth',
ar gae o gyrff, ystyr 'gwerth';
angof sawl un ar 'gofeb'
tyrrau nawr ble bu 'tir neb'.
O'u hanes nhw i'n hoes ni
mynnaf neges y meini.

Nid yw erlid mewn darlun,
nid yw gwaed mewn du a gwyn;
darlun gês ar derfyn dydd
nid milwr ond ymwelydd.
Yng nghrud waedlyd y bedlam
y mae pawb yn amau 'Pam?'
Ar erwau maith oera'r mêr
ymson di-ateb amser.
Annog wnaed i'n hogiau ni
ymuno, crewyd meini.




O'r pulpud, Gair i'w hudo
oll i bridd ymhell o'u bro
yn enw Duw, i'r uffern dân
i achub gwledydd bychan.

Mae aberth oesol meibion
Gwales yn rhwygo'r galon,
ymyrryd wna ein meirwon.

Atgof, enw ar gofeb
trwy y niwl clywn gri tir neb,
yno mae'r llu di-wyneb.

Ai gwaeth magnel na'r saethau
iasoer bladurodd oesau?
'Run mor drist pob cist sy'n cau.

'Tyrd atom am gêm, Tommy
i gôl wag, dydd Gŵyl yw hi.'
O draw, ar fore tawel
eco'r bois yn cicio'r bêl.

Mor rhagrithiol fu'r 'Dolig- heb y gwn
lle bu gêm ddramatig;
yma, myrdd 'rôl chwarae mig
yn rhwyd y cae aredig.

I dawel erwau'r celain
nid rhif neu res huda'r rhain.
Dagrau dau sy'n dyfrio'r daith
yn rhoi enaid i'r heniaith.
Rhoi uwch beddfan 'Penanner
i dad a'i fab oedfa fer,
a thangnef 'Wele'n sefyll …'
yn mynnu gwawr ger maen gwyll.

Daw parêd Aled ac Alwyn – i lan
olyniaeth yn gadwyn.
Cymod dan amod emyn,
mae dau a Jac yma'n dynn.

Os llwm dinistrio cwmwd
eto saif coed Mammetz Wood.
O'r gad, er cipio'r goedwig
un oer gell yw erwau gwig
y di-fedd, yn eu heddwch;
wedi'r lladd, daear y llwch.
Ddydd a nos gwylio drosoch
oddi ar y cae mae'r Ddraig Goch;
hon yw cofeb y cyfiawn
sentri ddur milwyr y mawn.

Daw'r ias trwy belydrau'r haf – i'n hoeri
ger erwau'r rhai dewraf.
Uwch y cae, cof cyfnhaeaf
duo'r cnwd a phladur cnaf.

Ar faes cad, nerfus yw gŵr
o adael a throi'n 'fradwr'.
Yn y llys, prin yw lleisiau
gwâr eu hiaith i drugarhau.
Daw'r llanc at fwledi'r llu
am saith, i wawr lem saethu.
Polyn y marw unig,
i'w dras am byth, 'gwarth' â drig.

Aros mae creithiau'r ffosydd,
oeri'r cof wna'r llwybrau cudd.
Hyd gae, gwelir adwy gêl
llawn meirwon, afon rhyfel.
Bidog wana'r mamogiaid
Y ffwrn lladd, uffern y llaid.
Mae'n nos drwy'r dydd mewn ffosydd – yn y llaid
lloer yw haul canol-ddydd.
Arch yw ffos, heb barchu ffydd,
gwaed gelyn gyda'i gilydd.

Ei gân â erys ar goedd
yma Elis, 'mysg miloedd;
o'r ysgub, aeth o'r Ysgwrn,
llorio dawn ar allor dwrn.

Gwêl her yma'r galarwr – i'n heddiw
a'n heddwch mor llwgwr.
I oes gwae, clyw lais y gŵr
nid oeri wna gwaed arwr.

Yn yr haf, mor oer yw'r hin
yma heno 'Mhorth Menin,
a phawb dan rew y wên ffug
heb eiriau yn y barrug.

Troedia eco'r
catrawdau
– a'u haberth
yw cydwybod oesau,
a gwn mai bedd heb
ei gau
yw'r maen sy'n
drwm o enwau.

IN MEMORIAM
Heddwch i'w llwch.
Richard Llwyd Jones





## HWYL YM MHATAGONIA.

Bydd Manon Elwyn,Gethin Griffiths a Bronwen Price yn cychwyn ar eu taith am Batagonia ym mis Hydref. Pob dymuniad da i'r tri. Bu'r pentref a'r ardal yn gefnogol iawn i'w hymgyrch codi arian.

## LLONGYFARCHIADAU

i dri o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Bethel. Cafodd Gethin Griffiths ei ethol yn brif fachgen Ysgol Brynrefail eleni a Gruffydd John yn ddirprwy. Hefyd Bronwen Price yn ddirprwy y merched. Pob dymuniad da i'r tri ohonynt.

## DIOLCH.

Mae Geraint ac Anne Elis, Cilgerran, yn diolch i deulu, cyfeillion a chymdogion am eu dymuniadau da ac am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu Pen-blwydd Priodas Ruddem ar 14 Awst.

**DYMUNA** Myra, Euron, Jacci a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn galwadau ffôn, ymweliadau a'r llu cardiau a llythyron a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Selwyn. Diolch i gyfeillion Bethel a chymdogion ym Mhenisarwaun. Diolch arbennig i'r Dr Huw Roberts a Dr Siwan am eu gofal o Selwyn. Diolch yn fawr.

## MERCHED Y WAWR.

Cynhaliwyd y noson agoriadol i'r tymor newydd nos Fercher, 14 Medi. Noson ardderchog, gyda phawb wedi mwynhau cwmni talentog ac amryddawn Teulu Aelwyd y Gân o Fodedern. Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau cerddorol o safon uchel yn lleisiol, mewn unawdau, deuawdau a mwy, gan gynnwys eitemau hynod feistrolgar ar y delyn. Roedd y perfformiad cyfan wedi rhoi blas i ni o dalent gwych y teulu yma. Diolchwyd i Rhys, Ann a'u dwy ferch, Elain a Glesni, gan Anne Elis. Gwerthfarwogwyd cefnogaeth Cynllun Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru i'r noson.

Estynnodd ein Llywydd, Rita Dauncey Williams, groeso cynnes i bawb. Llongyfarchwyd Carwyn John, mab Lynwen, ar ennill Gwobr Llwyd o'r Bryn yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Cylch a hynny am yr eildro, hefyd Dewi Griffith, mab Glenys ar ei lwyddiant yntau gyda'r ddau fand.

Yr un oedd y cyfarchion i blant a phobl ifanc y pentref yn dilyn eu hamrywiol lwyddiannau mewn arholiadau, gan ddymuno yn dda iddynt i gyd i'r dyfodol.

Llongyfarchwyd Anne a Geraint, Gwyneth ac Elwyn, a Margaret a Phillip ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Dymunwyd yn dda i Glenys, ein Is-lywydd, sydd yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty, gan obeithio ei gweld yn ôl ynghanol y bwrlwm eto yn fuan. Cydymdeimlwyd â Gwyneth, Llain yr Ardd, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Cafwyd gwybodaeth am bwyllgor nos Iau, 29 Medi am 6.30 yn Festri Cysegr, i drafod Sioe Llanelwedd 2011 ac Eisteddfod yr Urdd 2012. Cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig ar gyfer 2012. Testunau'r Ffair Aeaf. Llwyddiant prosiect 'Sodlau'n Siarad' gyda £8,000 wedi ei drosglwyddo i gronfa 'Achub y Plant'. Y Cwis Hwyl Cenedlaethol eleni ar y thema 'Agor Drysau' a'r diwrnod o weithgareddau Celf gan yr Adran Gelf a Chrefft sydd i'w gynnal ar 8 Hydref yn Nhregarth.

Diolchwyd i Edwina Morris, y cyn-drysorydd am baratoi'r Fantolen, i Ellen am baratoi'r rhaglen, i Glenys am osod y rhaglen ar y cyfrifiadur fel arfer ac i Beti am gyfeilio ar gyfer canu Cân y Mudiad ar y dechrau.

I gloi'r noson mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Nora, Ann a Gwyneth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Hydref, pryd y disgwylir Theta Owen i ddod i arddangos ei chrefft o 'Osod Blodau'.

## CLWB BRO BETHEL.

Brynhawn Mawrth, 6 Medi, yn Festri Bethel, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor gyda sgwrs ddifyr ac amrywiol iawn gan y Parchedig W.R. Williams. Yn absenoldeb y Llywydd, croesawyd yr aelodau a'r gŵr gwadd gan Geraint Elis, yr Is-lywydd a chydymdeimlwyd â theuluoedd Nerys Owen a Selwyn Griffith, dau o aelodau ffyddlon y clwb a fu farw yn ystod yr haf. Cyn mynd adre cafwyd paned flasus wedi ei pharatoi gan Megan Humphreys ac Elizabeth Evans.

Edward Morus Jones fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr brynhawn Mawrth, 4 Hydref. Croeso i aelodau hen a newydd.

## OEDFAON HYDREF Y CYSEGR

2: Parch W.R. Williams

9: Gweinidog

16: Gwasanaeth Diolchgarwch

23: Gweinidog

30: Parch R.E. Hughes.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**



**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU, ERYRI 2012**
**Pwyllgor Apêl Llanrug a Chwm y Glo**



Taith Siopa Nadolig
i
Lerpwl
Tachwedd 19eg
£10.00
Gadael Llanrug 8:30 a.m
Gadael Lerpwl 6:30 p.m
I archebu lle cysyllter ag
Anwen 01286 674598
anweno@btopenworld.com
Eryl 01286 675384





**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

# BRYNREFAIL

## EISTEDDFOD YR URDD 2012.

Brynrefail a Phenisarwaun. Rydym bron iawn â chyrraedd y nod. Gyda gwerthiant Raffl yr Urdd byddwn wedi cwblhau, gyda mawr ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor, a chydweithrediad trigolion y ddau bentref.



## PARTI PENTREF BRYNREFAIL.

Dydd Sadwrn, Medi 3ydd daeth nifer o blant ac oedolion ynghyd i'r Caban i gymryd rhan ym Mharti'r Pentref. Ymhlith yr aml weithgareddau cafwyd Helfa Drysor hanesyddol drwy ddilyn hen ffotograffau, Bwrdd Mawr Celf, Tombola, Paentio Wynebau, Stondinau amrywiol a Ras Falwod! Tra roedd yr holl weithgareddau yn mynd ymlaen cafwyd adloniant gan y grŵp gwerin Mooncoin ac i gloi'r parti cafwyd perfformiad gwych gan Cajuns Denbo.

Hoffai trefnwyr y parti a staff Caban ddiolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y dydd.

## Y GYMDEITHAS.

Bu cyfarfod o'r Gymdeithas Nos Iau, Medi 15fed. Cadeirydd y noson oedd Lowri Prys Williams, Godre'r Coed. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrdod seiliedig ar y berthynas agos a'r fraint gafodd yr Eglwys ym Mrynrefail o fod â chysylltiad agos â'r Maes Cenhadol yn India ym mugeiliaeth dau o'i chyn-weinidogion, sef y diweddar genhadon Barchgn. D.W. Davies a G. Angell Jones. Roedd hyn yn arweiniad i destun y noson gan y Parch.Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon. Cafodd ef a'i briod y fraint o ymweld â'r Maes Cenhadol yng ngogledd-ddwyrain India y llynedd a thrwy gyfrwng cyfarpar cyfrifiadurol, cyflwynodd i ni ddarlun rhagorol o fywyd heddiw ar y Maes Cenhadol yn ei wahanol agweddau a'r diolchgarwch amlwg oedd yng nghalonnau'r trigolion oherwydd yr hyn a gyflwynodd y cenhadon o Gymru iddynt dros y cenedlaethau. Diolchwyd yn gynnes iddo am adroddiad hwyliog a chynhwysfawr o'i brofiadau gan y cadeirydd a sylwadau pellach o werthfawrogiad gan nifer o'r aelodau.

Bydd y cyfarfod nesaf yn mynd â ni allan o'r pentref pan fyddwn fel aelodau yn ymgynnull i fwynhau cyfarfod olaf y Gymdeithas am 2011 yn Oriel Môn.

### OEDFAON HYDREF am 5.30 yr hwyr

2: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

9: Mr John H. Hughes, Llanberis

16: Oedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad Y Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

23: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

30: Mr Aled Ifan, Bodedern


**Siop Waunfawr**
(Howard a Debbie)
*Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ*
Ffôn: **(01286) 650834**
Diolch am gefnogi'r fenter newydd
ar agor **7.30 – 6.30**
**8.00 – 6.00** (Sadwrn)
**9.00 – 12.00** (Sul)
e-bost: siopwaunfawr@live.com

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS
*wrth droed yr Wyddfa*
Ffôn: 08444 119 004



MANTELL GWYNEDD
**Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc – GwirVol 2011-12**
Ar gyfer 2011-12 mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd wedi derbyn £7,000 o arian grant i'w rannu i grwpiau er mwyn creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Ngwynedd. Mae'r grant ar gael er mwyn annog rhagor o bobl ifanc rhwng 16 - 25 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol er budd y gymuned leol. Felly, os oes gennych chi syniad neu gynllun fydd yn arwain at gael criw o bobl ifanc at ei gilydd i wirfoddoli yn eich ardal chi – mae modd cael grant hyd at £500 tuag at y cynllun!!
AMSERLEN
Pecyn Cais ar gael NAWR!
Dyddiadau Cau
**25ain o Dachwedd 2011**
**31ain o Ionawr 2012**
Rhaid gwario'r arian grant erbyn: 31ain Mawrth 2012.
BRYSIWCH!
Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mirain Roberts yn Mantell Gwynedd ar (01286) 672626 neu ei e-bostio -mirain@mantellgwynedd.com.

# CAEATHRO

**PEN-BLWYDD PWYSIG.** Llongyfarchiadau mawr i Hannah Hughes, Llyngele, ar ôl iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed ar 10 Medi gyda pharti mawr yng Nglan Gwna.

**DIOLCHGARWCH.** Cynhelir gwasanaeth o ddiolchgarwch am gynaliadwyaeth y byd a'i bethau yng Nghanolfan y Capel am 2:00 brynhawn, dydd Sul, 2il o Hydref. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb - o unrhyw enwad, di-enwad neu dim ond awyddu diolch am ymdrechion gloyw llywodraethau ac unigolion yn gofalu am yr unig Ddaear sydd gennym. Croeso i bawb.

**AELODAU NEWYDD O GAPEL CAEATHRO.** Ar ddydd Sul, 4 Medi, derbyniodd y Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson, dri unigolyn ifanc y pentref fel aelodau o'r Eglwys Gristnogol fyd eang ac yn benodol Chapel Caeathro. Y tri yw Gwion Eryl, Bryn Mair; Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen; a Celt Iwan, Carrog. Edrychwn ymlaen at eu presenoldeb yn yr oedfaon yn y dyfodol

**DAMWAIN.** Mae'n braf gweld Emily Huws, Tyddyn Llwyni, y tu ôl i olwyn car unwaith eto ar ôl damwain yn ddiweddar.

**FFAIR 'DOLIG.** Yn groes i'r cyhoeddiad blaenorol bydd y Ffair 'Dolig eleni yng Nghanolfan y Capel ar nos FAWRTH, 6 Rhagfyr.

**CYNGOR CYMUNED Y WAUNFAWR.**
Cynhaliwyd cyfarfod 5 Medi 2011 yng Nghanolfan y Capel, Caeathro. O wybodaeth gan y Cadeirydd mae'n debyg y bydd disgyblion o'r Waunfawr gyda'r hawl i deithio yn rhad ac am ddim i Ysgol Syr Hugh Owen tan ddiwedd tymor yr haf 2012. Felly bydd rhaid cadw llygad ar sefyllfa cludiant disgyblion o Gaeathro o fis Medi 2012 ymlaen. Gofynnir i Gyngor Gwynedd osod camfa newydd a dynodi ffordd y llwybr cyhoeddus rhwng Llety ac Ysbytty. Cytunwyd i dalu cost cynnal a chadw a thrwsio hysbysfwrdd y pentref ar ôl y fandaliaeth diweddar. Tynnir sylw Cyngor Gwynedd at ddraeniau yn y pentref sydd wedi'u cau gan faw. Bydd y cyfarfod nesaf, ar 19 Hydref, yn ystyried rhoddion ariannol i fudiadau lleol. Dylid cyfeirio ceisiadau at Y Clerc, Tŷ Awelog, Y Waunfawr, gyda manylion am yr angen am arian a mantolen ddiweddaraf y mudiad. Yn achos mudiadau sy'n gwasanaethu ardal ehangach na ffiniau Cyngor Cymuned Y Waunfawr dylid nodi'r nifer a fydd yn elwa y tu mewn i ardal y Cyngor a manylion cais i gyngor arall.

**TYNFA FISOL CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO.**
Enillwyr ym mis Medi oedd:
1af: £40, Rhif 14, Dan Jones, Gwêl y Graig; 2il: £25, Rhif 22, Leti Williams, 'Refail; 3edd: £15, Rhif Gwenda Jones, Plas Glangwna; 4edd: £5, Rhif 82 Siôn ac Anna, Y Wern.

**DOSBARTH CELF.** Ar ôl seibiant yr haf, mae'r Dosbarth Celf wedi ail gychwyn. Mae'r Dosbarth bob bore dydd Mercher rhwng 10 ac 1 yng Nghanolfan y Capel. Y tiwtor unwaith eto yw Marie Rose Pritchard. Croeso mawr i aelodau newydd. Beth am ddod un waith er mwyn blasu un sesiwn cyn ymrwymo eich hunan? Does dim angen profiad arlunio neu gelf o flaen!

**CLWB BWOLIO (mat byr) WAUNFAWR.**
Mae'r Clwb wedi ailddechrau ar ôl gwyliau'r haf. Beth am ymuno â'r Clwb? Mae Bowlio yn ffordd bleserus a hawdd i ymarfer ac hefyd i gymdeithasu. Cynhelir y Clwb bob pnawn Mawrth ac Iau o 2-4 y pnawn a 7-9 gyda'r nos. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10 a £3 y sesiwn am chwarae, yn cynnwys paned a bisgedi. Dewch draw i gael tro arni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ac Anne Williams (Ysgrifennydd 650452) neu Wenna Edwards (Trysorydd 650734) neu unrhyw un o'r aelodau presennol. Croeso cynnes i bawb.

**OEDFAON CAPEL CAEATHRO.** Bydd gwasanaethau'r Ysgol Sul fel y ganlyn ym mis Hydref:

2il: 11:00 Ysgol Sul;

2:00 Dathliad o Ddiolchgarwch o dan arweiniad Y Parch. Marcus Wyn Robinson.

9fed: 11:00 Ysgol Sul yn unig

16eg: 11:00 Ysgol Sul yn unig

23ain: 2:00 Y Parch Huw Dylan (Dim Ysgol Sul yn ystod Hanner Tymor)

30ain: Dim oedfa nac Ysgol Sul

# CWM Y GLO

**YSGOL CWM Y GLO**
Cawsom ddiwedd tymor prysur iawn rhwng y gwahanol ymwelwyr i'r ysgol, ymweliadau o'r ysgol, dathliadau a ffarwelio!
Bu 'Cyfeillion' yr ysgol yn trefnu gwahanol weithgareddau – helfa drysor llawn hwyl – biti bod ambell un wedi mynd ar goll a methu dilyn y cyfarwyddiadau cyntaf un! Yna Ffair Haf lwyddiannus ar fuarth yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n cyfrannu i lwyddiant y gweithgareddau – y rhai sy'n mynychu y cyfarfodydd, yn trefnu, yn gwirfoddoli ac yn cefnogi. Cofiwch, y plant sy'n elwa o gael adnoddau newydd gan y 'Cyfeillion'.
Yn dilyn llwyddiant Miss Mared Jones yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, rydym yn llongyfarch Toby Fisher, Blwyddyn 4, ar ei lwyddiant yntau yng nghystadlaethau mabolgampau'r Urdd. Roedd yn cynrychioli Cylch Eryri yn y cyfarfod yng Nghei Connah mewn dwy gystadleuaeth – rhedeg a thaflu gwaywffon. Da iawn ti, Toby - rydym yn falch ohonot, ac o bob un o'r plant fu'n cystadlu yng Nghaernarfon a Threborth.
Cafodd Blwyddyn 6 hyfforddiant beicio dan ofal Rhian Whiteside yn ddiweddar. Gobeithio y bydd pob un ohonoch yn cofio'i chyngor a'i hyfforddiant wrth i chi feicio'r ardal yn ystod y gwyliau haf!
Diolch i bawb am gefnogi a'n cynorthwyo gyda'r mabolgampau. Prynhawn braf i bawb yn y parc – gyda 'Clegir' yn llwyddiannus eleni! Braf iawn oedd gweld Mrs. Roberts yn cystadlu'n frwdfrydig yn y ras tair coes – biti ei bod wedi twyllo!
Bu'r adran Iau yn mwynhau ymweliad diwedd tymor i Gelli Gyffwrdd, tra bu'r babanod yn mwynhau bore yn 'Piggery Pottery' cyn cael picnic yn y parc. Diolch yn fawr iawn i Jen, Louise a Sam am fod yn gymorth wrth i ni groesi y lôn brysur ac am drefnu castell neidio ar gyfer y plant yn y parc. Roedd y plant wrth eu boddau!
Yna daeth yr amser i ffarwelio – ffarwelio gyda Bl 6 a dymuno yn dda iddynt yn Ysgol Brynrefail a ffarwelio gydag athrawes boblogaidd sydd yn ein gadael ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon – sef Mrs. Gwenifer Roberts (Mrs. Roberts Dre i'r plant!). Diolch yn fawr i chi Mrs. Roberts gan y staff, llywodraethwyr, plant ac aelodau'r gymuned – ni fydd Ysgol Cwm y Glo yr un fath heboch!
Wedi'r gwasanaeth ffarwelio cafwyd parti swnllyd a chyfle i ollwng y balŵnau lliwgar y bu'r Cyfeillion yn eu gwerthu. Bydd rhaid disgwyl tan mis Medi i ddarganfod balŵn pwy deithiodd bellaf.
Ar ddiwedd y tymor a blwyddyn arbennig i'r ysgol carai bawb yma ddiolch am bob cefnogaeth i'r ysgol. Mwynhewch eich gwyliau bawb ac edrychwn ymlaen i gyfnod
Llongyfarchiadau Mawr i Elain Siân, Bwlchgrwnog, Bwlch, Cwm y Glo ,am gael ei dewis i chwarae Pêl-Rwyd dros Gymru i'r tîm o dan 17 oed. Mae Elain ym mlwyddyn 12 yn Ysgol Brynrefail ac yn gobeithio dilyn gyrfa ym myd chwaraeon. Da iawn ti a phob lwc yn dy gêm gyntaf dros Gymru.

## Cefnogwch ein hysbysebwyr

**DYMUNA** Gwyneth, Bod Gwynedd, ddiolch i bawb am yr anrhegion, galwadau ffôn, cardiau, blodau, arian ac i bawb fu yn ymweld â hi ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

**DYMUNA**. Meira, Goleufryn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion ac aelodau Eglwys St Gabriel am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 60 oed.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG.** Llongyfarchiadau i Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 890 mlwydd oed, hefyd i Meira Wiliams, Goleufryn, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed.

**LLONGYFARCHIADAU** i Avril ac Eifion, Glan-y-Don, ar anedigaeth wyres fach, Tesni Fflur, merch i Carys a Dylan a chwaer fach i Alaw a Siwan yn Llanberis.

**YMUNO Â'R FYDDIN.** Pob dymuniad da i Harry Edwards, Wrth y Becws, 1 Groeslon, sydd wedi dechrau ei yrfa drwy ymuno â Choleg Sylfaen y Fyddin yn Harrogate ar 11 Medi. Mewn defod arbennig yng Nghastell Caernarfon ar 1 Medi, rhoddodd ei lw o deyrngarwch i'r Frenhines. Wedi ei hyfforddi am 52 o wythnosau yn y coleg bydd Harry yn ymuno â Chatrawd Gwarchodlu Cymreig yn Llundain.

**UNDEB Y MAMAU.**
Ailddechreuwyd ein cyfarfodydd am y tymor nesaf. Cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mair, Caernarfon, bnawn Mawrth, 20 Medi. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd materion perthnasol gyda phaned a bisged.

# EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWM Y GLO.

Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn Neuadd Ysgol Brynrefail nos Wener, 11 Tachwedd. Bydd y rhaglen ar gael ddiwedd Medi yn y siopau lleol a hefyd trwy'r Ysgol Gynradd yn Llanrug a Chwm y glo. Eleni mae'r pwyllgor wedi creu cystadleuaeth newydd i ddenu mwy o oedolion i'r Eisteddfod ac os oes gennych grŵp o ffrindiau sydd yn awyddus i gymryd rhan mewn cystadleuaeth 'Grŵp Offerynnau Cegin' neu 'Gyflwyniad Digri' yna dewch yn llu! Rydym yn ffodus eto eleni i gael lluniaeth wedi ei baratoi gan Gangen Plaid Cymru.

Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal yn Festri Capel y Rhos ar nos Fawrth, yn cychwyn ar Hydref 4. Mae croeso i bawb ddod i'r ymarferion a gwelir isod yr amserlen.

Eleni fe fydd yr Eisteddfod Celf a Chrefft yn cael ei chynnal ar nos Lun, 7 Tachwedd. Mae amrywiaeth eang o gystadlaethau i blant a hefyd i famau, neiniau a theidiau, sy'n byw yn Llanrug neu Cwm y glo.

Bydd cystadlaethau llên yn cael eu cynnal yn yr ysgolion.

Testunau - Meithrin i Flwyddyn 13
Unrhyw waith yn seiliedig ar:

**Syrcas; Symud; Cyffro; Dathlu**
**Maint y papur i fod ddim mwy nag A3**

**Tri Dimensiwn**
Meithrin/Dosbarth Derbyn: Addurn Nadolig
Bl 1 a 2: Het
Bl 3 a 4: Bwgan Brain
Bl 5 a 6: Tacluswr Desg
Uwchradd: Model carafan

**Tecstiliau**
Adan Babanod: Pyped hosan/maneg
Adran Iau: Câs ffôn symudol
Uwchradd ac Agored: Unrhyw eitem

**Dyluniad Cyfrifiadurol**
Adran Babanod: Ffrind/Ffrindiau
Adran Iau: Calendr
Uwchradd: Pamffled hybu eich pentrefwyr

**Coginio**
Meithrin/Dosbarth Derbyn: Anifail ffrwythau
Bl 1 a 2: Bisgedi
Bl 3 a 4: 'Brownis'
Bl 5 a 6: Brecwast iach
Bl 7, 8 a 9: Risotto
Bl 10, 11, 12 a 13: Unrhyw bastai
Merched: Quiche
Dynion: Cyri
Agored: Jam / Marmalêd
Agored: Saws
Agored: Cyffug

**Gosod Blodau**
Agored: Addurn priodas

**Ffotograffiaeth**
Agored: Unrhyw lun ar y thema 'Dathlu'

1. Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn: 'Clapio', Selwyn Griffith - A Dyma'r Ola
2. Unawd Dosbarth Derbyn: 'Siani Flewog (un bennill), Falyri Jenkins – Ffitian Ffatian.
3. Côr Llefaru cyn-oedran ysgol (Ysgol Feithrin a Dosbarth Meithrin): 'Dau Gi Bach'.
4. Côr cyn-oedran ysgol: (Ysgol Feithrin a Dosbarth Meithrin): 'Y Cloc', Leah Owen – Mae Gen i Gân
5. Llefaru Unigol Bl 1 a 2: 'Bachgen Bach o Arfon, Selwyn Griffith – A Dyma'r Ola
6. Unawd Bl 1 a 2: 'Siom', E. Olwen Jones – Caneuon Mathafarn
7. Dawnsio Disgo i Grŵp Cynradd/Uwchradd: Hunan ddewisiad (Cerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol) * Noder bod rhaid i'r cystadleuwyr ddod â chwaraeydd CD eu hunain*
8. Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 'Wil Coes Bren' (geiriau ar gael yn yr ymarferion)
9. Parti Dawns Gwerin/Stepio Cynradd/ Uwchradd: Hunan ddewisiad
10. Llefaru Unigol Bl 3 a 4: 'Pry', Selwyn Griffith – Pawb yn Barod?
11. Unawd Bl 3 a 4: 'Hufen Iâ', Beti Rhys/Angharad Llwyd (copiau ar gael yn yr ymarferion
12. Cân Ysgafn /Grŵp Pop Cynradd: Hunan ddewisiad
13. Llefaru unigol Bl 5 a 6: 'Tyfu', Valmai Williams – Perthyn dim i'n teulu ni (gol, Myrddin ap Dafydd)
14. Sgets Cynradd: Hunan ddewisiad
15. Unawd Bl 5 a 6: 'Y Pedwar Tymor', Robat Arwyn/ Robin Llwyd ap Owain – Cân y Ddraig
16. Unawd Offerynnol Cynradd: Hunan ddewisiad (dim mwy a 3 munud) * Ceir cystadlu ar un offeryn yn unig)
17. Grŵp Offerynnau Cegin Agored: 'Y Brawd Houdini' neu hunan ddewisiad
18. Parti Llefaru Cynradd: Hunan ddewisiad
19. Sgets Uwchradd: Hunan ddewisiad
20. Parti/Côr Cynradd Bl 3 – 6: Addasiad o 'Tŷ ar y Mynydd' (geiriau ar gael yn yr ymarferion)
21. Cân Ysgafn/Grŵp Pop Uwchradd: Hunan ddewisiad
22. Unawd Offerynnol Uwchradd: Hunan ddewisiad (Dim mwy na 5 munud o hyd) * Ceir cystadlu ar un offeryn yn unig)
23. Llefaru Unigol Uwchradd: Hunan ddewisiad
24. Cyflwyniad Digri (llafar/canu) Agored: Moliant i'r beirniad (dim mwy na 5 munud o hyd)
25. Unawd Uwchradd: Hunan ddewisiad
26. Parti Llefaru Uwchradd: Hunan ddewisiad
27. Parti/Côr Uwchradd / Agored: Hunan ddewisiad. Gwobr 1af: £30.00; 2il: 20.00 (yn agored i rai o'r tu allan i bentrefi Llanrug a Chwm y glo.


**Gwasanaeth Gwres a Plymio**
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

# DEINIOLEN

**EISTEDDFOD WRECSAM.**
Bu i Iola Bryn Jones, Llwydfryn, a Chloe Roberts, Llanrug, gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ar 31 Gorffennaf ar y Dawnsio Disgo mewn pâr. Yn anffodus, ni chafodd y ddwy lwyfan, ond cystadlu sydd yn bwysig, ac yr oedd y ddwy wedi mwynhau cymryd rhan yn fawr. Hoffai y ddwy ddiolch yn fawr iawn i'r hyfforddwraig Set Sasha Frazer o Fethel. Bu i'r ddwy hefyd gymryd rhan yn y grŵp 'Pic a Mix' hefo Sasha yn eu dysgu eto. Diolch yn fawr iawn iddi.

**DYMUNA** Gwen Griffith, Fron, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei annwyl chwaer, Nantw, ym Mhorthmadog.
Diolch yn arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Ambiwlans Awyr Cymru a Chymdeithas Clefyd Siwgr. Diolch yn fawr iawn.

**DIOLCH.** Dymuna Daniel Ellis ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr arian a'r holl gardiau a'r dymuniadau da a gafodd yn dilyn ei lwyddiant yn mynd i Brifysgol Caerdydd.

**CLWB PÊL DROED IEUENCTID.**
Mae'r clwb yn falch o gyhoeddi bod tîm dan 7 wedi cael ei sefydlu ar gyfer tymor 2011/12, a diolchir i Tony am wirfoddoli ei amser i redeg y tîm. Hoffai'r clwb ddiolch i selogion bingo Tŷ Elidir am eu rhodd hael tuag at redeg y clwb.

**MERCHED Y WAWR.**
Dechreuwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd trwy ganu cân y mudiad. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd gan roddi croeso arbennig i Rhian sydd wedi ymaelodi o'r newydd. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Marian a oedd wedi colli ei mam yn ystod yr haf. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i'r aelodau a chyn-aelodau nad oedd wedi bod yn dda yn ystod y misoedd diwethaf. Pleser oedd cal llongyfarch Margaret ar ddod yn nain unwaith eto ac hefyd dymuno yn dda i Pat sydd wedi ymddeol o'i swydd yng Nghaernarfon. Carai'r aelodau hefyd longyfarch plant y pentref sydd wedi gwneud mor dda mewn gwahanol arholiadau, chwaraeon ac yn y blaen.
Croesawyd y gŵr gwadd, sef Mr John Clifford Jones o Age Concern a roddodd sgwrs i ni ar sut y dechreuwyd y mudiad a sut mae wedi tyfu o nerth i nerth. Hefyd soniodd wrthym am y gwahanol fudd-daliadau sydd ar gael i'r henoed. Diolchwyd iddo gan Buddug. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Tŷ Elidir ar 3 Hydref a disgwylir Mr Gareth Roberts o 'Llaeth y Llan' atom.
Os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi â'r gangen peidiwch â bod ofn dod i'r cyfarfod yma. Cewch groeso twymgalon gan yr aelodau.

**CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.**
Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol ynghyd â 'Moes a Phryn' ar nos Lun, 5 Medi. Dewiswyd y canlynol yn swyddogion am y tymor:
Cadeiryddes: Rosina Worth, Ysgrifenyddes: Gwen Griffith; Trysoryddes: Buddug Hughes; Trefnydd y baned: Rhianwen Jones.
Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 4 Hydref, pryd y mwynheir Swper y Cynhaeaf yn y Faenol, Pentir, gyda'r Barchedig Nia Williams, Bethesda, yn wraig wadd. Edrychir ymlaen am dymor llwyddiannus, diddorol a bendithiol.

**EISTEDDFOD GADEIRIOL DEINIOLEN.**
Cynhelir yr eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, 29 Hydref yn Festri Capel Ebeneser, i ddechrau am 1.00 a 6.00. Gellir cael copi o'r testunau mewn nifer o siopau'r ardal. Mae ymarferion canu a llefaru i blant y pentref wedi cychwyn yn Nhŷ Elidir bob nos Iau rhwng 6 a 7 o'r gloch.

**APÊL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012.**
Hoffai pwyllgor apêl y pentref ddiolch o galon i Mr Rhys am Elwyn ac Ysgol Gwaun Gynfi am yr arian a roddwyd tuag at apêl y pentref yn dilyn ei daith noddedig ar gefn ei feic yr holl ffordd o Abertawe i Glynllifon.

**DYMUNIADAU GORAU** i bobl ifanc y pentref a'r ardal sy'n cychwyn ar dymor newydd mewn colegau a phrifysgolion.

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r cylch**

i'w chynnal yn
Festri Capel Ebeneser, Deiniolen
am
1.00 a 6.00 yr hwyr, Dydd Sadwrn, Hydref 29ain, 2011




**BEIRNIAID**

**Cerdd a Cherdd Dant:**
Ilid Ann Jones, Bangor

**Llefaru:**
Sian Teifi, Llanfaglan

**Llenyddiaeth:**
Y Prifardd Selwyn Griffiths
Bydd angen ail drefnu yn dilyn ei farwolaeth annisgwyl yn diweddar

**Gwau, Gwnïo a Choginio:**
Anita Long, Brynrefail

**Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffiaeth:**
Gwilym Williams, Deiniolen

**Dawnsio Disgo:**
Kelly Jones, Bethel

**CYFEILYDD Y PRYNHAWN:**
Eleri Bean, Clwt y Bont

**CYFEILYDD NOS:**


*Darren Jones*
*Contractiwr Teilsio*
CEGINAU
YSTAFELLOEDD YMOLCHI
A LLORIAU
*9 Rhos Rug*
*Llanrug Caernarfon*
(01286) 669090
Mobile-07894818783

SMALA
www.smala.net
2,000 o gardiau busnes lliw llawn
£80 + TAW

01286 660 364
07887 654 251

**Caffi Caban**
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
caban cyf

**DIOLCH.**

Dymuna Lowri Elenid, Bryn Tirion, Llanberis, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Awst y 29ain, 2011. Diolch hefyd am y dymuniadau gorau ar achlysur Canlyniadau ei Lefel 'A' a mynd i'r Coleg. Gwerthfawrogwyd eich negeseuon ac 'rwyf yn diolch o waelod calon i chwi oll. Diolch arbennig hefyd i Mam a Dad xxx.

**APÊL.**

Twrn Llanberis ydi hi i blygu'r Eco nesaf. Ychydig iawn, iawn sy'n troi i mewn i ymgymryd â'r gwaith hanfodol yma yn Llanberis. Yr oll sydd ei angen yw dwy awr o'ch amser ynghyd â'ch dwy law a'ch dwy droed!

Bydd Eco Mis Tachwedd yn cael ei blygu yng Ngwesty Dolbadarn am 2 o'r gloch, prynhawn Iau, Hydref y 27ain.

Taer erfynnir am eich presenoldeb.

**CAPEL COCH.** Dyma beth o newyddion gwaith plant ac ieuenctid Capel Coch.

Ysgol Sul. Mae tymor newydd yr Ysgol Sul wedi ail ddechrau erbyn hyn, ac mae croeso cynnes i blant newydd ymuno â ni. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch bob bore Sul, ond ar y pedwerydd Sul o bob mis byddwn yn cynnal oedfa deulu am 10.30 o'r gloch yn lle'r Ysgol Sul. Mae honno'n oedfa arbennig sy'n dod â'r plant a'u teuluoedd a chynulleidfa'r capel at ei gilydd. Bydd yr Oedfa Deulu nesaf am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 23.

Moli. Cynhaliwyd oedfa Moli nos Sul, Medi 11 dan arweiniad Andrew Settatree a Dafydd a Gwenno Pritchard. Mae'r oedfaon hyn a gynhelir am 5 o'r gloch ar yr ail nos Sul o bob mis yn dilyn patrwm gwahanol i'n hoedfaon arferol ar nos Sul. Cymerir rhan ynddynt gan rai o bobl ifanc clybiau CIC a'u harweinwyr. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni yn oedfaon Moli. Pam yr enw 'Moli'? Yn syml iawn, am ein bod yn gobeithio gallu rhoi Mwy O Le i'r Iesu yn ein bywydau ac yn ein haddoliad.

**CIC a CICiau.** Mae gweithgaredd CIC wedi ei symud o bnawn Sul i nos Wener ers yr haf. CIC yw'r Clwb Ieuenctid Cristnogol, a byddwn yn ei gynnal bob yn ail nos Wener yn Capel Coch y tymor hwn. Bydd gennym ddau glwb yn cyfarfod yr un pryd y tymor hwn, gan fod CICiau yn glwb newydd ar gyfer plant Blwyddyn 6. Cynhelir CIC a CICiau rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch bob yn ail nos Wener. Dyma ddyddiadau'r tymor: Medi 30; Hydref 14; Hydref 28 (Noson arbennig Gemau Giamocs); Tachwedd 11-13 (Penwythnos Coleg y Bala ar gyfer ieuenctid Blwyddyn 7-9); Tachwedd 25 a Rhagfyr 9. Am ragor o fanylion, cysylltwch â John Pritchard (01286 872390) neu Andrew Settatree (07929916181).

Cafwyd y llun yma gan Ellen Georgena Whitehouse sy'n enedigol o Lanberis, gyda chais am enwau'r disgyblion eraill oedd gyda hi yn Standard 1, Ysgol Dolbadarn, tua 1946/47.

Wedi cysylltu â rhai o'r plant sy'n adnabyddus yn y llun, cafwyd llu o wybodaeth. Dyma'r enwau a gafwyd i fyny i rŵan - yn aml 'roedd mwy nag un enw yn cael ei gynnig i ambell wyneb!



(Rhes gefn): Llew Roberts, Derek Jones, Bobby Owen, Valerie Roberts, Ian Tate, Selwyn Hughes, Roy Vernon, Yvonne Wilson, Geraint Williams, Vernon (Calio), Gwyn Hefin Jones.

(Rhes Ganol): Carys Jones, Ellen Georgena Jones, Ellen Donia Jones, Margret (Penlon), Elizabeth Holland Roberts, Irene Hughes, Sylvia (Llwyncoed), Jennie Morris, Brenda Thomas, Dilys Rees ,Catherine Lloyd, Jean Lloyd. (Rhes Flaen): Dafydd Emrys Griffiths, Elwyn Jones, Eric Parry, Ifan Jeffrey

## MRS GRACIE ROBERTS (1916 – 2011)

Ffarwel i ferch y Bryniau

Daeth newydd trist iawn i'r fro gyda marwolaeth Mrs Grace Roberts o Waterfall View, Llanberis, ar y 22ian o fis Gorffennaf.

Ganed Grace Williams yng nghanol erchylltra'r Rhyfel Byd Cyntaf, union nawdeg a phum mlynedd yn ôl i'r trydydd dydd o'r mis hwn ym Mur Mawr, Llanberis. Roedd yn unig blentyn i David ac Alice Williams. Collodd ei mam pan yn ddeuddeg oed ac, yn dilyn marwolaeth ei thad, pan yn bedair ar ddeg oed symudodd i fyw at ei hannwyl Anti Mary i Waterfall View.

Er nad oedd yn fodryb llawn i neb, Anti Gracie Waterfall View oedd hi i bawb a'i hadwaenai. Cerddodd filltiroedd hyd lethrau'r fro a doedd dim yn well ganddi na sgwrs efo'i chymdogion a'i ffrindiau niferus. Bu'n hynod o driw i'w ffydd gan fynychu Capel Coch, ble y'i bedyddiwyd ym mis Mawrth 1917, ac yna, ar ôl ei phriodas, i eglwys Sant Padarn ble bu'n aelod ffyddlon hyd at ddiwedd ei hoes. Cefnogodd yr achos yn hen gapel Hebron hefyd oedd mor agos at ei chalon.

RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2010
HELFA CALAN GAEAF
HANNER TYMOR YR HYDREF
MWYNHEWCH DAITH OFNUS DRWY GOEDWIG Y GWRACHOD A

Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn

Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk - 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi.
(yn ddilys tan 29.10.11)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anrhegion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 4ydd, 10fed/11eg, 17eg/18fed
Oedolion a phlant o £7.00
(plant o dan dair oed o £3.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



Priododd â Thomas Salisbury Roberts, brodor o Gapel Curig, ym mis Medi 1948 a oedd yn beirianydd yn orsaf Bŵer Cwm Dyli a chawsant flynyddoedd hapus iawn efo'i gilydd.

Wedi iddi golli ei hannwyl Salisbury, fel y galwai ef, ymdrechodd ymlaen yn ei bwthyn un llawr bach ar y bryn. Cynhaliai aelwyd drws agored gan fyw yn y gegin gefn yn ôl yr hen drefn. Gadawodd Waterfall View bron yn union fel y'i cafodd - yn glud a chysurus. Ar wahân i ychydig o welliannau er mwyn symud ymlaen gyda'r oes fodern, mae'r bwthyn, sydd dafliad carreg oddi wrth y rhaeadr a rheilffordd yr Wyddfa, yn llawn cymeriad ac yn enghraifft berffaith o hen fythynnod plaen Cymreig yr ardal.

Roedd yn amhosib mynd heibio'r bwthyn bach heb alw am sgwrs a phanad. Roedd yn ei helfen yn gweini ar eraill ac yn hoff iawn o gwmpeini i drafod materion y dydd.

Ond nid person ei milltir sgwâr oedd hi. Teithiodd ymhell ac agos gan dreulio gwyliau ym Mallorca a hyd yn oed yng Nghanada bell. Er iddi dreulio ei hoes ar lethrau'r Wyddfa, ei hoff fan oedd Ynys Enlli, neu ynys y seintiau fel y galwai hi, a theithiodd yno deirgwaith yn hwyr yn ei dyddiau

Roedd hi'n galon i'r gymdogaeth a niferus fu ei chymwynasau a'i charedigrwydd i niferoedd. Roedd ganddi'r gallu cynhenid i uniaethu ac i ddeall pan fo rhywun mewn gwewyr - gan deithio ar un achlysur yr holl ffordd i Ffrainc i gynnig cysur i'w chyn-gymdoges yn ei dyddiau olaf. Ond rhaid dweud fod y parch a'r cariad a ddangosai ei chymdogion ati hi yr un mor ddiffuant hefyd.

Gwrthododd pob awgrym i symud i fyw yn hwylusach i waelod y ddol gan fynnu 'mai yma dwi am fod bellach'. Meddiannai bersonoliaeth hyfryd ac addfwyn a throediodd y ffordd gywir trwy gydol y daith. Ond daeth tro ar fyd gyda throad y ganrif pan ddaeth salwch blin i'w rhan ac, er brwydro ymlaen gwaethygodd ei chyflwr a rhaid oedd symud yn barhaol i gartref Plas Pen Gwaith ble y derbyniodd ofal arbennig iawn. 'Heb ei eni, heb ei fai,' medd yr hen air, 'Does neb yn berffaith,' medd eraill. Mae'n anodd iawn ei chysylltu â'r dywediadau hyn.

Roedd hi'n Gristion gonest a chywir. Diolch iddi am ein cyfoethogi gyda'i phersonoliaeth arbennig.

Bydded heddwch a pharch i'w llwch

# LLANRUG

**DYMUNA**
Meinir, Gwion, Tomos a Berian, Hafan, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd gan deulu a ffrindiau yn dilyn colli Gareth Thomas - tad a thadcu annwyl iawn yn Ystradgynlais. Fe fu mis Awst yn enbyd o galed iddynt eleni gan iddynt gael colled a siom arall tra ar eu gwyliau yn Ffrainc. Mae eu gwerthfawrogiad o gyfeillgarwch a chynhaliaeth pawb yn fawr yn ystod cyfnod anodd iawn iddynt fel teulu. Diolch arbennig i Nerys a Dilwyn, Iola a Daniel, Melanie a Trystan a'r plantos.

**DYMUNA** Gwyndaf a Mair Lloyd Hughes, Glasgoed, ddiolch yn ddiffuant iawn i deulu a ffrindiau am gofio amdanynt pan yn dathlu eu Priodas Ruddem ym mis Awst. Maent yn gwerthfawrogi y cyfan yn fawr.

**DIOLCHIADAU.** Dymuna Clifford ac Eleanor Williams, Afallon, Rhes Rhyddallt, ddiolch i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am y cyfarchion, anrhegion a rhoddion hael a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ddiamwnt tuag at Tŷ Gobaith, Conwy. Diolch o galon.

**DIOLCH.** Dymuna Andrew a Judith Beech, Seibiant, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu merch fach, Elain, ar ei genedigaeth. Hefyd dymuna Catrin, chwaer fawr Elain, ddiolch am yr anrhegion a dderbyniodd hi.

**OEDFAFON MIS HYDREF**

2: Y Gweinidog – y Parch, Marcus W Robinson

9: Mr. Charles Wyn Jones

16: Gwasanaeth Diolchgarwch

23: Parch. Trefor Jones

30: Parch. Ddr. Gwilym H. Jones

**PÊL BONWS YR URDD.**
Awst 27: Rhif 49 – Avril Jones, 14 Minffordd; Medi 3: Rhif 31 – Esyllt Llwyd, Y Goedlan; Medi 10: Rhif 37 – Margaret Jones, 9 Afon Rhos; Medi 17: Rhif 10 - Nanw Haf, Y Goedlan.

Diolch eto i bawb sy'n cefnogi'r apêl tuag at y targed lleol.

**SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON.**
Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu arian o dŷ i dŷ ym mhentref Llanrug yn ystod mis Mehefin. Cyfanswm y casgliad, ynchyd â Llanrug, oedd £670.26.

Diolch o galon i bawb a fu mor hael yn cyfrannu i'r elusen bwysig hon.

**BRYSIWCH WELLA.**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Megan O. Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, sydd wedi bod yn sâl am amser ond gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

**FFAIR GREFFTAU.**
Cynhelir Ffair Grefftau/ Cynnyrch yr Ysgol Gynradd am 6.30 yr hwyr ar 10 Tachwedd. (Cyfle gwych i gychwyn eich siopa Dolig heb y plant) Tocynnau ar gael o'r ysgol neu drwy gysylltu â Jacqueline ar 07788897044.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gosod stondin gellir cysylltu â Donna ar (01248) 670460/07966805220.


ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk


**CAPEL Y RHOS.**
Ym mis Mehefin, priodwyd Michelle Louise Roberts, Tal y Bont a Dafydd Einion Williams o Drefor. Mae'r ddau yn bwriadu ymgartrefu ym Mharc Muriau Caernarfon. Dymunant ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am ddiwrnod priodas bythgofiadwy.



Yna ym mis Awst, cynhaliwyd priodas Michelle Ann Owen a Peter Jones, Llanrug.
Pob dymuniad da i'r ddau gwpwl ifanc ar gyfer y dyfodol.
Ar Fedi'r 18fed, bedyddiwyd Lois Elen, merch fach Awen ac Aaron Bailey o Gwm y Glo. Dymunwn bob bendith i'r teulu bach yma hefyd.
Gweinyddwyd y tri gwasanaeth gan y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson a'r organydd oedd Mair Lloyd Hughes.


GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf
GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?
*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recrwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-
Iola neu Ellis Wyn Jones ar-
Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC-FFORDD Y PARC • PARC MENAI • GWYNEDD LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

AGE Cymru
Concern

## ANGEN GWIRFODDOLWYR

Agorwyd Clwb Cinio Hafan Elan, Llanrug, yn ystod haf 2011 er mwyn darparu pryd o fwyd i bobl hŷn yr ardal bob dydd Mawrth, rhwng 12.00 a 13.00. Erbyn hyn mae'n profi'n boblogaidd iawn, gyda dros 20 o bobl leol yn mynychu'r clwb bob wythnos.

Mae Age Concern Gwynedd a Môn yn edrych am fwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddosbarthu'r bwyd ac hefyd golchi llestri.

Gan fod y bwyd yn cael ei baratoi yn Ysgol Brynrefail, buasai'n fanteisiol i rai o'r gwirfoddolwyr fod gyda char a thelir treuliau teithio perthnasol. Ceir manylion pellach am y cyfle drwy gysylltu gyda Maldwyn Roberts, Age Concern Gwynedd a Môn ar (01286) 677711.

## MERCHED Y WAWR.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd i Ganolfan Capel y Rhos. Agorwyd y tymor drwy ganu Cân y Mudiad. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Margaret Jones ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith ac â Megan Mai ar farwolaeth ei brawd. Llongyfarchwyd holl ieuenctid y fro a fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Llongyfarchiadau hefyd i Mair a Gwyndaf ar eu Priodas Ruddem. Pob dymuniad da i Owain Machno, mab Meirwen, a Glesni ar achlysur eu priodas. Yr un modd pob dymuniad da i Urien Deiniol, mab Heulwen ar ei ddyweddiad â Rhian, ac i Luned, merch Linda, ar ei dyweddiad â Ceri a chroeso mawr i Llywelyn Pennant, w^yr i Linda a mab bychan Bryn a Gwenan, Brynrefail. Croeso cynnes hefyd i Nia, merch fach i Ieuan Green a Michelle ac wyres i Meryl, a llongyfarchiadau i Gwyndaf a Catrin, merch Eirianwen, ar enedigaeth eu hail fab, Gruffudd.

Darllenwyd llythyr o ddiolch i'r aelodau a fu'n helpu yn Sioe Llanelwedd. Cynhelir Pwyllgor i drafod y Sioe ac Eisteddfod yr Urdd 2012 yn Festri Capel Cysegr Bethel am 6.30 ar 29 Medi.

Cynhelir Gweithdai Celf a Chrefft yn Nhregarth ar 8 Hydref ble bydd dewis o weithgareddau - arlunio gyda chŵyr, peintio sidan i greu sgarff unigryw a chreu gemwaith gwreiddiol. Enwau i Gwenda a thâl o £15 rhag blaen os gwelwch yn dda. Cafwyd cais am gymorth ariannol gan Eisteddfod Llanrug a Chwm y glo.

Mae cystadleuaeth i gynllunio Cerdyn Nadolig 2012 – rhaid i'r cynllun fod yn wreiddiol ac yn addas ar gyfer ei atgynhyrchu. Cynigir ffotograffiaeth yn ychwanegol at y dylunio ynghyd â barddoniaeth oddi fewn. Dyddiad cau - 5 Rhagfyr 2011. Bydd y buddugwyr yn derbyn 2 becyn o gardiau a £20.

Testunau Ffair Aeaf 2011, Tachwedd 29/30 yw Crefft: map unrhyw gyfrwng; seren unrhyw gyfrwng. Coginio: jar o friwfwyd. Ceisiadau olaf: 17 Hydref.

Mae'r cynllun 'Cymraeg hefo'n Gilydd' yn ffordd o gael hyd at £100 tuag at gostau un o'r digwyddiadau ar ein rhaglen. Y cwbl sydd angen ei wneud fydd estyn croeso i Ddysgwyr o fewn y gymuned i ymuno â'r gangen. Dangoswyd diddordeb mawr i'r weithgaredd hon. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Eurgain Haf, ar ran Elusen Achub y Plant, i'r holl aelodau a fu mor gefnogol i'r weithgaredd 'Sodlau'n Siarad' a'r casgliad o ffonau symudol a chetris inc. Diolchwyd i Mair, Olwen, Heulwen ac Ann a ffrindiau eraill am eu cymorth ar y stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Gwerthwyd gwerth £6,000 o esgidiau ac erbyn hyn mae'r cyfanswm dros £9,000.Diolch o galon.

Un o brosiectau y Llywydd Cenedlaethol eleni ydi casglu Agoriadau o unrhyw faint i godi arian i'r mudiad. Mae casglu enwau tai, ffermydd a chaeau yn parhau. Diolchir i Cari a Menna am ddangos diddordeb mawr. Rhaid i'r deunydd fod yn barod erbyn mis Mawrth. Cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol ar 18 Tachwedd yn Seiont Manor.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig eleni yn ciniawa yn yr Hen Lechan, Y Felinheli ar 13 Rhagfyr, enwau a dewis o fwyd i Carys Wyn.

Gwestai'r noson oedd yr amryddawn Gwenno Glyn o'r Bontnewydd. Mae wedi ennill gwobrau lu ar y delyn a'r piano ynghyd â Rhuban Glas Offerynnol dan 16 oed yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd 2008 ar y piano. Mae'n astudio Cerdd, Drama a Hanes ar gyfer ei Lefel Uwch yn Ysgol Syr Hugh Owen ac yn gobeithio mynd i'r Brifysgol ym Manceinion i astudio'r piano.

Cyfareddwyd pawb gyda'i datganiadau ar y delyn a'i pherfformiadau grymus ar y biano. Roedd y datganiad o Natalino, ffefryn ei nain, yn heintus. Yna ar y piano, chwaraewyd 'The Man I Loved', Gershwin yn angerddol. Dilynwyd gyda 'Lisa Lân' a chadwyn o alawon Cymreig ar y delyn. Cân a chwaraeir yn aml a gafwyd wedyn ar y delyn – Cân Serch gan Pachbell's Canon ac roedd y Gân Serch Liberstrawn yn hudolus. I gloi'r perfformiadau aruchel cafwyd y gân bwerus Focealla a la Donza. Diolchwyd i Gwenno am rannu ei thalentau â ni ac am ei pherfformiadau clodwiw. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Etholwyd Phyllis Elis yn Llywydd Anrhydeddus y Gangen i olynu'r ddiweddar Enid Whiteside Thomas. Y mae Phyllis yn aelod ffyddlon o'r gangen ers y cychwyn ac wedi llywyddu nifer o weithiau. Llongyfarchiadau Phyllis. Diolch i Mair, Heulwen, Carys a Margaret am y baned. Mair Parry, Megan Roberts ac Ann Lloyd fydd yn gyfrifol am baned Hydref. Enillwyd y raffl gan Ann Lloyd. Edrychir ymlaen am gwmni Mair a Gwyndaf Huws ar 11 Hydref yn olrhain eu taith i Batagonia.

## COFION.

Anfonir y dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Glenys Griffith, Bethel, Arweinydd ffyddlon Parti Clychau'r Grug, gan yr aelodau i gyd. Diolchir i Carys Jones am gymryd yr awenau yn ystod absenoldeb Glenys. Ein cofion anwylaf hefyd at un o'r aelodau ffyddlonaf, sef Awen, sydd wedi derbyn nifer o lawdriniaethau yn ddiweddar – y mae'n mwynhau cyfnod adref yn Heol Elinor, Twthill ar hyn o bryd cyn wynebu triniaeth bellach ym Manceinion. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein dymuniadau gorau. Bydd Parti Clychau'r Grug yn treulio noson yng nghwmni aelodau Capel Newydd Berea, Bangor, ym mis Hydref.

## SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr y Clwb Cant Mis Awst: 1. Cynthia Owen, 26 Hafan Elan; 2. Gracie Thomas, Gwenallt; 3. Sheila Williams, Glyn Afon.

**PLAID CYMRU.** Enillwyr Clwb Cant Mis Medi: 1. Margaret Jones, 9 Afon Rhos; 2. Gwenda Roberts, Hafle.


Cefnogwch ein hysbysebwyr

Cist Gymunedol

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

Sport Wales
Chwaraeon Cymru
www.gwynedd.gov.uk

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

YSGOL BRYNREFAIL




Yn hanu o Fethel, cafodd Addysg Gynradd yn Ysgol Bethel. Mae'n astudio Cemeg, Ffiseg, Bioleg a Saesneg. Prif ddiddordebau yw Chwarae'r piano a karate. Ei hoff raglenni teledu yw The Sopranos, Wonders of the Universe. Hoff fiwsig yw Biffy Clyro, Mumford and Sons. Ei chas bethau: Baked beans, gwyfod




Ar gychwyn y tymor hwn, roedd yn bleser cael croesawu Mr Arwyn Williams i'r ysgol i gychwyn yn ei swydd newydd fel Dirprwy Bennaeth yr ysgol yn dilyn ymddeoliad Ms Eirwen Williams dros yr haf. Mae Mr Williams yn enedigol o Borthaethwy ac yn byw erbyn hyn gyda'i deulu ifanc yn Llanfairpwll. Bu'n gweithio am nifer o flynyddoedd yn ei hen ysgol, sef Ysgol David Hughes, lle y bu iddo lwyddo i gael sawl dyrchafiad a gorffen ei gyfnod yno fel Pennaeth Cynorthwyol. Croeso cynnes iawn i Mr Williams i'r ysgol a'i chymuned a dymuniadau gorau iddo yn ei rôl allweddol yn Ysgol Brynrefail.
Mr Eifion Jones, Pennaeth




Yn hanu o Fethel, Cafodd ei addysg gynradd yn Ysgol Bethel. Mae'n astudio Cerddoriaeth, Cymraeg, Ffiseg a Mathemateg. Ei brif ddiddordeb yw Cyfansoddi cerddoriaeth. Hoff raglen deledu Friends Hoff fiwsig Beatles. Cas beth yw Ysgytlaeth (milkshake)




Yn hanu o Fethel cafodd Addysg Gynradd yn Ysgol Gynradd Bethel, Mae'n astudio Cymraeg, Cemeg, Hanes, Addysg Gorfforol. Ei brif ddiddordebau yw Pêl-droed a chymdeithasu. Hoff raglenni teledu yw Scrubs, Top Gear. Hoff fiwsig yw Coldplay a phopeth arall hefyd. Cas beth: Bys trwy bolystyren.




Yn hanu o Lanrug, cafodd addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Llanrug. Mae'n astudio Mathemateg, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Cemeg. Ei phrif ddiddordeb yw Chwaraeon. Hoff raglen deledu yw Coronation Street.

# "Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"




Gwenlli Haf, Llanrug, Anna George, Brynrefail, Anest Jones , Penisarwaun - tair aelod o flwyddyn 13 lwyddiannus eleni yn dathlu ar ddiwrnod derbyn eu canlyniadau lefel A yn Ysgol Brynrefail.

Bethan Roberts, Penisarwaun yn dathlu 4 gradd A* Lefel A

Yr ydym i gyd, yn deulu Ysgol Brynrefail, yn cyd ddathlu eu llwyddiant ac yn falch iawn ohono, wedi dwy flynedd o waith caled a chyfnod hir o ddisgwyl am y canlyniadau.

Meddai Mr Eifion Jones, Pennaeth yr ysgol:
'Rwyf yn hynod fach o lwyddiant yr holl ddisgyblion ac yn diolch iddynt oll am eu cyfraniad i waith a bywyd yr ysgol ac yn dymuno'r gorau i bawb i'r dyfodol. Carwn hefyd ddiolch i holl staff yr Ysgol am eu gwaith diflino.




Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd fe gyrhaeddodd y Banc Dillad yn Ysgol Brynrefail. Mae Caergylchu yn gynllun sy'n anelu i leihau gwastraff ac annog ail-ddefnyddio ac ailgylchu o fewn ardal Arfon yn bennaf. Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cwmni Gwastraff Môn ac Arfon (CGMA) ac Antur Waunfawr Ailgylchu (AWA) ac y mae Ysgol Brynrefail yn falch o'r cyfle i fod yn rhan o'r datblygiad. Mae hefyd yn fodd o godi arian i goffrau'r Ysgol ac i Antur Waunfawr.
Sut fedrwch chi ein helpu? Wel, mae'r Banc yn derbyn dillad, tyweli, cynfasau, blancedi, llenni ac esgidiau ac os ydych am gefnogi, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, roi eich cyfraniadau mewn bagiau plastig yn y Banc.
Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth i'r Ysgol ac i'r Antur.




(Cymhwyster Bagloriaeth Cymru)
Elliw Ellis Davies sydd, gyda'i chwaer Dwynwen, yn rhedeg Cwmni Atom P.R. sydd wedi ei leoli yn Doc Fictoria Caernarfon. Mae'r ddwy chwaer yn disgrifio ATOM: 'Er yn gwmni bychan, mae wedi ei ffurfio'n berffaith ac yn gyfrwng cyfathrebu dwyieithog.' Maent yn gweithio gyda dros 50 o gwsmeriaid ym Mhrydain a thu hwnt.
Mae Elliw yn enghraifft berffaith o berson ifanc lleol sydd wedi mentro a llwyddo i greu cwmni llwyddiannus yn yr ardal.
Mae 'Menter' yn un o'r agweddau a roddir sylw iddi o fewn y Fagloriaeth a chynhaliwyd nifer o sesiynau yn ystod y cyfnod anwytho i roi rhagflas o rai o agweddau o'r cymhwyster.




Do, bu hir ymaros. Do, bu digon o amser i gynhyrfu. Ond pan ddaeth y diwrnod fe ddaeth y wên ar wefus, a'r cyd ddathlu a ffonio adref i ddweud wrth fam a gweddill y teulu.
Eleni fe gafwyd canlyniadau gwych yn arholiadau T.G.A.U. a theulu Brynrefail yn ymfalchïo yn llwyddiant eu disgyblion. Bydd nifer go helaeth yn ail ymuno â'r Ysgol ym mis Medi trwy ymuno â'r chweched dosbarth. Bydd eraill yn ymadael i fyd gwaith neu ar gwrs coleg.
'Y mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r gwaith caled wnaethpwyd gan y disgyblion a hefyd yn dangos cefnogaeth ddiflino holl staff yr Ysgol. Carwn longyfarch y disgyblion oll ar eu llwyddiant a dymuno'r gorau iddynt yn eu dyfodol.'
Eifion Jones, Pennaeth

### YSGOL SUL BOSRA.
Daeth ugain o aelodau ifanc i'r Ysgol Sul fore Sul, 11 Medi am 10. o'r gloch. Croesewir Ethan a Gethin yn gynnes iawn atom. Roedd pawb yn falch o weld ffenestri newydd wedi'u gosod yn y capel ac yn y porth. Rydym mor falch fod Mr Evie Jones yn parhau i fod yn Arolygwr gofalus ohonom ac yn hynod falch hefyd fod y rhai sydd bellach yn Ysgol Brynrefail yn dal i fynychu'r Ysgol Sul.

### DYWEDDIAD.
Ein dymuniadau gorau i Urien Deiniol a Rhian Gregory ar eu dyweddiad rhamantus yn Efrog Newydd. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

**PRIODAS.** Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Eurig Roberts (mab Nant a Tegid) ar achlysur eu priodas ym mis Awst. Pob bendith i chwithau.

**DIOLCH.** Dymuna Shirley Jones, Camleot, a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef Eurwyn. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a chyfraniadau ariannol ac ymweliadau. Bu hyn o gysur mawr i'r teulu.

Dymuna Myra, Euron, Jacci a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn galwadau ffôn, ymweliadau a'r llu cardiau a llythyrau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Selwyn. Diolch i gyfeillion Bethel a chymdogion ym Mhenisarwaun. Diolch arbennig i Dr Huw Roberts a Dr Siwan am eu gofal o Selwyn. Diolch yn fawr.

**DIOLCH.** Dymuna Delyth Williams, Kate Rosser a Dafydd Price ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli brawd annwyl arall, sef Elfyn. Diolch o galon.

### PROFEDIGAETH.
Awst 31ain yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei theulu, bu farw Nan Jones, 45 Stryd Fictoria, Caernarfon, merch y diweddar Huw a Nellie Roberts, Vine Cottage a Llys y Gwynt (gynt).

Bu'r angladd ddydd Gwener, 9 Medi, yn Eglwys Santes Helen am 11 o'r gloch ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll.

### LLWYDDIANT CERDDOROL.
Llongyfarchiadau i Jordan, Twm a Ianto ar eu llwyddiant gyda'u cyrn. Daliwch i chwythu, hogia!

**PEN-BLWYDDI ARBENNIG.** Pen-blwydd hapus iawn i Wendy Philips, Waen, ar achlysur pen-blwydd arbennig ar Medi 12fed. Cariad mawr gan y teulu i gyd a phawb yma ym Mhenisarwaun.

Pob hwyl i Geraint Williams, Careb, yntau'n dathlu pen-blwydd arbennig ym Medi. Dymunir mordaith hapus i ti, Geraint, ac i Avril i ddathlu'r achlysur.

**EISTEDDFOD YR URDD 2012.** Brynrefail a Phenisarwaun. Rydym bron iawn â chyrraedd y nod. Gyda gwerthiant Raffl yr Urdd byddwn wedi cwblhau, gyda mawr ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor, a chydweithrediad trigolion y ddau bentref.

**YSGOL GYMUNED.** Croeso. Croesawyd 3 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin, mae Elain, Erin a Harry wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith.

Croesawn Miss Donna Roberts a fydd yn treulio amser yn nosbarth y Babanod yn ystod absenoldeb mamolaeth Miss Rhian Roberts, a Miss Elen Hughes o Goleg Menai a fydd yn treulio amser yn yr un dosbarth fel rhan o'i chwrs. Mae Miss Lowri Williams yn treulio'r tymor yn nosbarth 3 a 4, a Mrs Nia Wyn Jones yn nosbarth 5 a 6 fel athrawon llanw. Croeso hefyd i Miss Rachel Hanks a Mr Ifan Owen sydd yn gweithio fel cymorthyddion dosbarth bob bore.

Pob Lwc. Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn ysgol Brynrefail.

Gwersi Nofio. Mae 29 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau, mae pawb yn mwynhau.

Gwersi Offerynnol. Mae 13 o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

Urdd/Campau'r Ddraig. Bydd cyfarfodydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn yn yr ysgol ar ôl hanner tymor ar yn ail â gweithgareddau Campau'r Ddraig.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr Gwynant Parri yn yr ysgol fore dydd Mercher, 9 Tachwedd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un sydd heb blant yn yr ysgol alw draw os dymunant.

**CLWB YR HENOED.** Cynhelir Bingo nos Iau, 20 Hydref am 6.30.

**PÊL BONWS LOTERI.** Enillydd mis Awst oedd Mr Richard Jones, Heather Bank, gyda Rhif 49. Llongyfarchiadau.

**CÔR CYMUNED.** Cynhelir ymarferion bob nos Iau rhwng 3.45 a 4.45. Croeso i ddisgyblion yr ysgol ymuno â chyn-ddisgyblion sy'n Ysgol Brynrefail. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

**EISTEDDFOD BENTREF.** Gan fod mis Gorffennaf eleni wedi bod yn hynod hwylus i'r Eisteddfod cynhelir Eisteddfod 2012 hefyd ar 6 Gorffennaf. Edrychir ymlaen am eisteddfod lewyrchus eto.

**LLONGYFARCHIADAU** mawr i Berwyn Peterson a'i gymar ar enedigaeth merch fach, Esme Rose, wyres fach i Ann a Dave Patterson a gor-wyres i Mary Davies, Llys y Gwynt. Bydd Esme yn dathlu ei phen-blwydd ar y cyd â thaid Dave.

### LANSIO LLYFR.
Ar fferm Tros y Waen ar bnawn Sadwrn, 8 Hydref, am 2.00 caiff hunangofiant W.H. Griffith, Llys, Brynrefail ei lansio. Mae croeso cynnes i bawb yno.

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, yw'r cyhoeddwyr a theitl y llyfr yw 'O'r Castell i'r Llys'. Mae'n llyfr hynod ddifyr ac o ddiddordeb i fro yr Eco. Y grŵp offerynnol o Fand Deiniolen, 'Y Deg Darn Arian' oedd yn diddanu yn dilyn eu llwyddiant eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam.

Y Prifardd Geraint Lloyd Owen fydd yn arwain y cyfarfod lansio.

### PWYLLGOR NEUADD.
Cynhaliwyd Pwyllgor nos Lun, 19 Medi, a thynnwyd Clwb Cant Medi. Yr enillwyr yw Elizasbeth Jones, Bryntirion ac Aled Green, Rhos Wian.

Cynhelir Noson Calan Gaeaf nos Lun, Hydref 31 yn y Neuadd Gymuned. Bydd cystadlaethau, stondinau, raffl, tombola, cŵn poeth a phaned ar gael. Pris mynediad fydd £1. Bydd Disgo Calangaeaf i ddilyn. Bwriedir cynnal 'Noson Wasael' ym mis Rhagfyr gydag eitemau gan blant yr ysgol, aelodau'r Pwyllgor a chenir yr hen garolau i gyfeiliant rhai o aelodau Band Deiniolen.

Gwasanaethau
Garddio
Gorwel
01286 650761
07773 020424
Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277


## YSGOL WAUNFAWR

Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn y Ganolfan ddydd Gwener Gorffennaf y 15fed am 9:30 o'r gloch. Estynnwyd gwahoddiad cynnes iawn i rieni a neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 i ymuno gyda ni ac yna am baned ac ymddangosiad 'Photo Story' arbennig yn neuadd yr ysgol. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a gwobrwywyd pob plentyn yn unigol am ddawn arbennig. Cyflwynwyd llyfr lloffion yn rhodd gan yr ysgol a thocyn llyfr £5.00 am eu hymdrechion caled gyda'r cywaith. Dymunwyd yn dda iddynt yn Ysgolion Uwchradd Brynrefail a Phendalar.

Ffarweliwyd hefyd â thri cymhorthydd Anghenion Arbennig – Enfys Griffiths, Dewi Clarke a Tracey Hughes. Diolchwyd iddynt am eu gwaith a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Plant Newydd. Estynnwn groeso arbennig i'r 13 o blant newydd y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn. Estynnwn groeso cynnes hefyd i Arian a Mia i flwyddyn 1.

Etholiadau. Etholwyd y disgyblion canlynol o flwyddyn 6 yn gapteiniaid ac yn is-gapteiniaid i'r timau am eleni.

Capteiniaid Eilio = Chloe a Cai, Is- gapteiniaid = Cara a Carwyn.

Capteiniaid Cwellyn = Megan P a Rhys, Is- gapteiniaid = Alys D a Joshua.

Capteiniaid Gwyrfai = Rhiannon a Mabon, Is- gapteiniaid = Anest a Keiran.

Cyngor Ysgol. Hoffem longyfarch yr aelodau newydd i'r Cyngor Ysgol, sef cynrychiolwyr blwyddyn 3: Math a Beca Elan, blwyddyn 4: Siôn Ifan a Tanwen; blwyddyn 5: Cameron a Kreena; blwyddyn 6: Mabon ac Alice Swatridge. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor i drafod syniadau ar gyfer y tymor.



Cyfarfod Rhieni. Cynhaliwyd cyfarfod i rieni y dosbarth derbyn nos Fercher Medi'r 14eg, diolch i Mrs Sioned Parry am drefnu'r noson i egluro y drefn newydd o asesu'r plant.

Hyfforddiant Beicio. Bydd disgyblion blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant sgiliau beicio dros y pythefnos nesaf. Byddant yn derbyn tystysgrif Lefel 1 a 2.

Glanllyn. Bydd 26 o blant blwyddyn 5 a 6 yn treulio tridiau yng Nglanllyn ddechrau mis Medi gyda disgyblion Ysgol Bethel. Diolch i'r athrawon ymlaen llaw am roi o'u hamser i oruchwylio'r plant.

## DYDDIADAU I'W CADW MEWN COF:

Ni fydd ysgol i'r plant ddydd Llun Hydref y 10fed gan fod diwrnod hyfforddiant i'r athrawon.

Dyddiad Hanner Tymor yw Hydref 21ain – Hydref 31ain

Bydd yr Antur yn casglu dillad i'w hailgylchu dydd Iau Hydref y 6ed.

**CLWB 300.** Enillwyr y Clwb 300 am fis Awst oedd: £30: Mr E.W. Hughes, 15 Tref Eilian; £20: Mr Sion Wyn, Dolgwyrfai; £10: Mrs N. Huws Roberts, Madryn, Erw Wen, Caeathro.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Gorffennaf oedd: £30: Mrs S. Parry, 8 Pant y Waun; £20: Mr D.G. Dvies, Bryn Teg; £10: Mr J.H. Edwards, Anneddle.

**MERCHED Y WAWR.** Ar ôl cyfarfod anffurfiol ar Fedi 22ain lle bydd cyfle i gofrestru, cymdeithasu a chwarae gemau bwrdd, cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 3ydd Tachwedd yn y Ganolfan lle bydd Mr Cynan Jones o Nantmor yn siarad am ei fusnes tyfu, casglu a gwerthu madarch. Cynhelir ein cinio Nadolig eleni nos Iau, Rhagfyr 1af yn Nhafarn y Weun.

Estynnir croeso twymgalon i aelodau hen a newydd i'n cyfarfodydd.

## SEFYDLIAD Y MERCHED.

Ar Fedi 1af cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Sefydliad ar ôl gwyliau'r haf. Roedd Catherine Jones, y Llywydd, yn falch o gael llongyfarch wyrion rhai o'r aelodau am wneud mor dda yn eu arholiadau ysgol. Cyfeiriodd hefyd fod Annie Thomas yn gwella ar ôl y driniaeth lawfeddygol a gafodd yn ddiweddar. Y wraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Margaret Dunn o Nantgwynant. Rheolwr y prosiect astudiaeth o goed sydd yn gyfrifol am 'Ddyddio Hen Dai Cymreig'. Eglurodd. Trwy ddangos sleidiau, sut yr oedd yn bosibl dyddio'r tai trwy astudio y coed a ddefnyddiwyd i'w hadeiladu. Diolchodd Anne Williams iddi am sgwrs ddiddorol. Yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 6ed y wraig wadd fydd Mrs Megan Hamilton yn dangos ac egluro crefftau. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 y prynhawn ar y dydd Iau cyntaf yn y mis.

**PRIODAS.** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alison Owen, Bryn Môr, ar ei phriodas â Steven Jones o Benygroes. Maent wedi ymgartrefu yn Tŷ'r Efail yma yn y Waun.

**GENEDIGAETH.** Llongyfarchiadau i Dafydd a Llywela Davies, Stad Tref Eilian, ar ddod yn daid a nain i Teleri, merch fach i'w merch, Ceryl a Colin, chwaer i Dafydd a gor-wyres newydd i Mr a Mrs Gwynedd Williams, 2 Bro Waun.


Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU
Gwaredu Data

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Llarpio Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org
ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org

# O SIAMBAR SELWYN

Wel am y tro 'O Siambar Myra' ydi hi. Wyddoch chi, un o'r pethau fyddai'n plesio Selwyn fwya fydda cael ambell i lythyr, galwad ffôn ne gair efo hwn a'r llall yng Nghaernarfon yn dweud faint o fwynhad oeddynt yn 'i gael wrth ddarllen erthygla bach y Siambar - diolch i chi i gyd. Fe ddaru mi gyfarfod Sel pan yn ddeunaw oed (a fynta ddeg mlynadd yn hŷn) ac mi gawsom ni dros hanner can mlynedd efo'n gilydd ac wedi bod reit lwcus a deud y gwir yn cael gweld llawer o wledydd yr hen fyd yma. Pwy wlad ne daith oedd yr ora medda chi? Wel roedd pob taith ne fordaith yn well na'r un flaenorol ond y daith ora un ganddo oedd y daith adra'n ôl i Landdeiniolen.

Mi fydd hi'n golled fawr i Euron (y mab) a finna ar ei ôl, ond atgofion melys a hapus a erys.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth i Selwyn dros y blynyddoedd. Does dim byd mwy i'w wneud ond cloi drws y Siambar a deud 'Diolch … a da boch'.

Myra Griffith

### CLWB BOWLIO (mat byr) WAUNFAWR.

Mae'r Clwb wedi ailddechrau ar ôl gwyliau'r haf. Beth am ymuno â'r Clwb? Mae Bowlio yn ffordd bleserus a hawdd i ymarfer ac hefyd i gymdeithasu. Cynhelir y Clwb bob pnawn Mawrth ac Iau o 2-4 y pnawn a 7-9 gyda'r nos. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10 a £3 y sesiwn am chwarae, yn cynnwys paned a bisgedi. Dewch draw i gael tro arni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ac Anne Williams (Ysgrifennydd 650452) neu Wenna Edwards (Trysorydd 650734) neu unrhyw un o'r aelodau presennol. Croeso cynnes i bawb.

### DIOLCHIADAU.

Mae Jane Roberts, Glaslyn, 24 Bro Waun yn diolch i'w ffrindiau a'i chymdogion i gyd am fod mor garedig tra bu yn yr ysbyty ac wedi dod adref.

Dymuna Annie Thomas, Gilfach, ddiolch i'r meddygon teulu a'r gofalwyr cartref am y gofal a dderbyniodd cyn ac wedi llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a gafodd gan deulu, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna Andrew a Judith Beech, Seibiant, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu merch fach, Elain Dafydd, ar ei genedigaeth.

### O'R CASTELL I'R LLYS

Dyna yw teitl hunangofiant W.H. Griffith, Llys, Brynrefail, a fydd yn ymddangos ym mis Hydref. Bydd y lansio ar fferm Dylan, ei fab, sef Tros y Waen, Penisarwaen, ar bnawn Sadwrn, Hydref 8fed am ddau o'r gloch. Mae'n llyfr difyr a diddorol yn dilyn hynt a helynt un a weithiodd yn egniol iawn gydol ei oes ac a lwyddodd mewn amrywiol feysydd.

Y grŵp offerynnol o fand Deiniolen, sef y Deg Darn Arian, fydd yn diddanu yn dilyn eu llwyddiant mawr eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Gwasg y Bwthyn sy'n cyhoeddi a'r Prifardd Geraint Lloyd Owen fydd yn llywio'r cyfarfod lansio.




## TAN Y COED

### SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu arian o dŷ i dŷ yn Nhan y Coed yn ystod mis Mehefin. Cyfanswm y casgliad, ynchyd â Llanrug, oedd £670.26.

Diolch o galon i bawb a fu mor hael yn cyfrannu i'r elusen bwysig hon.

## DINORWIG

### DIOLCH.

Dymuna teulu'r diweddar Ifor Phillips, 12 Maes Eilian, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli Ifor mor sydyn. Diolch am alwadau ffôn, ymweliadau a chardiau ac hefyd am y rhoddion hael. Diolchiadau hefyd i'r Parch Idris Thomas a Dr William Munro wrth yr organ. Diolch yn fawr i'r ardal hefyd.

### ADREF O'R YSBYTY.

Yn ystod y mis cymerwyd Mrs Yvonne Brenan, Afallon, i Ysbyty Gwynedd yn dra sydyn, ond da deall erbyn hyn ei bod adref a bod Rosalyn, y ferch, wedi dod i edrych ar ei hôl. Erbyn hyn braf yw deall ei bod yn cryfhau ac yn gwella o ddydd i ddydd ar ôl ei thriniaeth. Brysiwch wella, Mrs Brenan.

BOCS O FFRWYTHAU A LLUSIAU
£10. Wedi ei ddanfon AM DDIM yn lleol
ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 07990926484

YSWIRIANT FUW
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
*Bwyd lleol*
*Busnesau cefn gwlad*
*Economi wledig*
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 306926

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, llofft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

# CHWILOTA

## ENWOGION LLAI ENWOG

Soniais droeon o'r blaen fod angen cofnodi gwybodaeth am yr holl bobl sydd wedi eu geni neu sydd wedi byw o fewn y fro, ac wedi 'gwneud eu marc' mewn gwahanol feysydd. Efallai na chânt fyth eu cynnwys mewn rhifynnau i ddod o'r Bywgraffiadur, felly, dylid sefydlu Brograffiadur i gofnodi pawb o fewn dalgylch yr 'Eco'. Dyma un arall i'r rhestr y mis hwn.

**Gwilym Rhug**

Fel y mae ei enw'n awgrymu, brodor o Lanrug oedd William Edward Williams. Cafodd ei eni tua 1879, yn fab i Griffith Griffith Williams a Mary, ei wraig. Cafodd y tad a'r fam eu geni ym mhlwyf Llanrug. Roedd ganddynt ddau o blant eraill, sef Winifred a Robert, a oedd gryn dipyn yn iau na William Edward. Yn 1901 roedd y teulu'n byw yn Arfonia View, Llanrug; y tad yn hanner cant oed, a'r fam yn bedair a deugain. Chwarelwr oedd Griffith, ond mae William Edward, sy'n un ar hugain oed, yn disgrifio ei alwedigaeth fel 'slate quarry secretary', beth bynnag yn union a olygai hynny. Plentyn ysgol oedd Winifred (13 oed) a Robert yn ddim ond teirblwydd.

Does gen i ddim gwybodaeth bendant ynglŷn â ble'n union roedd Arfonia View – mae'r enw wedi diflannu erbyn heddiw

Erbyn 1911 roedd y teulu wedi mudo o Lanrug i Gaernarfon, ac yn byw yn 25 Rhes Segontium. Er fod y tad bellach yn 60 oed, mae'n parhau i weithio'n y chwarel, ond mae William Edward wedi torri cysylltiad â'r gwaith hwnnw, ac mae erbyn hyn yn 'government clerk'.

Prin yw'r wybodaeth sydd gen i am ei yrfa yn dilyn dyddiad y cyfrifiad, ond mae'n amlwg iddo ymddiddori ym myd y ddrama ac, yn 1923, ac yntau erbyn hyn yn byw ym Mae Colwyn, enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug am gyfansoddi drama.

A oedd dramâu eraill wedi eu hysgrifennu ganddo cyn hyn? Wn i ddim, a does gen i mo'r syniad lleiaf chwaith am weddill ei fywyd. Os oes rhywun all daflu unrhyw oleuni ar y dramodydd Gwilym Rhug, yna cysyllter.

**William S. Rowlands**

Dyma enw arall y gellir ei gynnwys yn y Brograffiadur – os cawn fwy o wybodaeth amdano. Daeth cais i law yn holi am wybodaeth am y bachgen gerddor hwn o Bentre Castell, Llanberis.

Yn 1891 roedd yn aros gyda'r cerddor enwog R.S. Hughes ym Methesda, ac mae'n bosib mai ef oedd arweinydd y Pentre Castell Glee Party a fu'n diddori trigolion Llanberis a'r fro – fel llawer i barti canu arall.

Tan y bwlch oedd enw ei gartref. Unwaith eto, anfonwch unrhyw wybodaeth, yn enwedig os oes rhai o'i deulu yn parhau i fyw yn y fro.

**Eisteddfod Talaith Powys: Corwen 1951**

Beth, meddech, sydd â wnelo Eisteddfod Powys â'r fro hon? Wel, y diweddar Richard Griffith, Foelas, Llanrug, a luniodd y gadair a welir yn y llun. Ei ferch, Llywela Hall o Lanrug, a anfonodd y llun, ond prin yw'r wybodaeth am y gadair. A enillwyd y gadair, ac os do, gan bwy?



Hi hefyd a anfonodd y ddau lun o Ysgol Ganol Llanrug. Mae un yn dangos y diweddar Mr Garrison Williams gyda rhai o'r plant – rwy'n adnabod rhai, ond beth am anfon yr enwau i gyd. Mae'r ail lun yn dangos athrawon yr ysgol. Unwaith eto, rwy'n adnabod rhai, ond nid pob un. A rhaid cofio gan mai Ysgol Ganol oedd Llanrug bryd hynny, fod nifer o'r plant yn cael eu haddysg yn yr hen Ysgol Bryneryr. Roedd hyn, wrth gwrs, cyn agor ysgol newydd Brynrefail yn Llanrug. A gyda llaw, Ysgol Pochin oeddem ni blant ysgol



Llanrug yn galw'r ysgol newydd honno nes cyrraedd yno ein hunain! Ie, cwmni adeiladu Pochin fu'n gyfrifol am ei chodi.

**Y Mudo o Arfon i America**

Gyda diolch i W. Arvon Roberts, Pwllheli am gysylltu ynglŷn â theulu o Lanberis fu'n rhan o'r mudo yn ystod y 1840'au.

Bu Richard Griffiths, Tyddyn Charles, Llanberis, yn ddiacon yn Jeriwsalem (A) am ugain mlynedd olaf ei oes, ac yr oedd ei wraig, hithau yn un o golofnau'r achos yno. Mab iddo oedd Griffith Griffiths, a briododd Margaret Roberts o Bentrefelin, Cricieth. Ganed merch, Dorothy, iddynt ar 18fed o Chwefror 1843, ond pan oedd hi ond yn chwech oed, ymfudodd y teulu i St John, Newfoundland. Buont yn byw yno am chwe mlynedd cyn symud eto, y tro hwn i Boston ac yna i Hampton, Efrog Newydd. Symudodd Dorothy yn ferch ifanc i weini yn ninas Efrog Newydd. Yno, ymunodd â'r Annibynwyr Cymreig, ond yn dilyn annwyd trwm gorfu iddi ddychwelyd at ei rhieni. Bu'n dihoeni am fisoedd gyda'r ddarfodedigaeth, a bu farw'n ferch ifanc ugain oed. Claddwyd hi ym mynwent Middle Granville, Efrog Newydd.

Aeth meibion eraill i Richard Griffiths, Tyddyn Charles, i'r America hefyd. Ymfudodd Ellis yn 1845. Roedd dau o'i frodyr eisoes yng Nghaergybi a dau arall yn Salem, Swydd Washington. Bu farw'n ŵr ifanc 43 oed yng Nghaergybi, Wisconsin, ym mis Ebrill 1857.

Aelod arall o'r teulu a fu farw'n ifanc oedd Margaret, merch John Griffiths, Tyddyn Charles, a'i wraig, Margaret. Deunaw oed yn unig oedd hi pan fu farw o'r ddarfodedigaeth. Claddwyd hithau, fel ei chyfnither, Dorothy, ym mynwent Middle Granville.

Tybed oes rhai o ddisgynyddion y teulu yn parhau yn America, a thybed oes rhai ohonynt yn dal yma yng Nghymru, ac yn dal mewn cysylltiad â'i gilydd?

**Chwedloniaeth a Hanes yn plethu i'w gilydd?**

Dyna sydd gan Hywyn Williams dan sylw wrth ymateb i hanes y cytiau hynafol a ddarganfuwyd ar lethrau'r Wyddfa, ac y cyfeiriwyd atynt gan Ken Jones ychydig rifynnau'n ôl.

Sonia am garreg enfawr a ddisgynnodd i lawr llethrau'r Tryfan a chau y ffordd rhwng Llanberis a'r Nant. A chyn i chwi ruthro am y ffôn i gywiro'r gosodiad, nid sôn am y Tryfan mwy enwog yn Nyffryn Ogwen a wneir, ond y Tryfan sy'n codi'n serth o Lyn Peris tua'r Wyddfa, a 'chartref' Brenhines yr Wyddfa.

Yn ôl Hywyn, sy'n dyfynnu o lyfrau yn trafod lleoliad ardal y Brenin Arthur, mae Llyfr Du Caerfyrddin yn cyfeirio at y ffaith i Bedwyr gael ei gladdu ar 'alld tryvan'. Ac onid oes chwedlau am Arthur yn cael eu lleoli ym Mwlch y Saethau ar y Lliwedd?

Damcaniaethu yw hyn, wrth gwrs, ond os oedd pobl yn byw yn uchel ar lethrau'r Wyddfa ganrifoedd lawer yn ôl, onid oedd yn bosib iddynt fod yn llwyth â chysylltiadau gyda rhai o arweinwyr cynnar y Cymry, megis Arthur? A dyna'n union yw cwestiwn Hywyn Williams: oedd Bedwyr yn byw yn un o'r tai cynnar hyn ar lethrau'r Wyddfa, ac a gafodd ei gladdu ar allt Tryfan uwchben Llyn Peris?

Sonia hefyd am Frwydr Gwaun Gynfi a Chaswallon Llaw Hir fel llywydd y Cymry yn y frwydr honno. A beth am Caradog Freichfras, cefnder i Arthur yn ôl y chwedl. Ac y mae lle o'r enw Maes Caradog uwch Cwm Dudodyn a Bwlch y Brecan.

Rydym ni bellach mewn maes lle nad oes cofnodion ysgrifenedig, a rhaid dibynnu ar archaeoleg i ddyddio rhai o'r hen aneddiadau hyn. Hyd yn oed wedyn, anodd yw eu cysylltu â'r enwau sy'n britho ein hen chwedloniaeth. Ond mae'n werth hel meddyliau …

**Y Saith Rhyfeddod**

Na, ddaeth neb â'r pennill cyntaf na'r awdur, ac rwy'n dal i ddisgwyl …

Cofiwch anfon gwybodaeth am y lluniau neu am unrhyw un arall o'r eitemau a gynhwysir y mis hwn. Cysylltwch hefyd ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco', drwy anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn 01286 673515.

# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Caeathro am 7.15 yh ar 05.09.2011. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Gerddi Bach – Trafodaethau yn mynd ymlaen, bydd trafodaethau pellach yn y cyfarfodydd i ddod.

Materion Caeathro – Cadarnhawyd na fydd dim newid ar hyn o bryd i'r trefniadau presennol ynglŷn â bws i blant y pentref i Ysgol Syr Hugh Owen.

Materion Waunfawr – Gerddi Bach – Pe bai cae chwarae ar y safle byddai angen buddsoddi tua £5,000 y flwyddyn i adnewyddu'r offer. Nid yw Cyngor Gwynedd yn barod i redeg dau gae chwarae ym mhob pentref. Buasai angen rhoi cais cynllunio i newid defnydd y safle pe bai cae chwarae yno.

Llochesau bws: Trafodwyd cyflwr y llochesau: Safle bws Croes y Waun – Trafodaethau yn mynd ymlaen gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn a'r safle bws newydd. Nodwyd fod y safle bws yng nghanol y pentref angen sylw.

Y Fynwent: Dim i'w adrodd.

Llwybrau troed: Mae'r gamfa ar y llwybr rhwng Llety ac Ysbyty wedi pydru ac mae angen twtio'r llwybr

Roedd 1 cais cynllunio i law, a mynegwyd dim gwrthwynebiad i'r cais yn amodol ar ddefnyddio llechi Cymreig ar y to.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:

Derbyniwyd gohebiaeth gan y Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol Eryri a nodwyd ei fod bellach wedi ei fabwysiadu.

Cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd – yn nodi eu bod yn cynnal Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio.

Daeth llythyr i law gan un o drigolion y pentref yn holi am y drefn ynglŷn â chais cynllunio Min y Grug, Waunfawr.

Mynegwyd fod:-

- moch wedi gwneud niwed i'r tir ac angen agor y ffos ar lwybr rhwng Pant Gwyn a Bryn Gwynedd.
- Coed yn y tŷ aeth ar dân yn Pant Gwyn yn dod drosodd i'r ffordd ac angen eu torri.
- fod y draen y tu allan i Ben Lon, Tai Glangwna wedi llenwi gyda phridd.
- fod ceffylau wedi creu budreddi ar lwybr Tyncae Newydd.

Byddwn yn edrych i mewn i'r materion uchod i gyd.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned, 19 o Hydref yng Nghanolfan Waunfawr, ble byddwn yn trafod ceisiadau am roddion.

## LLONGYFARCHIADAU

i Sioned Eleri Jones, Heulfryn, am ennill Triathlon Porthmadog (i ferched). Mae wedi cystadlu mewn chwe triathlon o'r blaen ac wedi gorffen yn y deg cyntaf yn y categori merched ym mhob un.

## GWELLHAD BUAN.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mrs Doris Roberts, Dwyros, wedi iddi ddisgyn a brifo tra yn aros gyda'i merch.

Hefyd yr un yw ein dymuniadau i Mrs Sylvia Prys, Pen-y-graig, wedi iddi hithau frifo yn ei chartref.

**CYDYMDEIMLWN** yn ddwys ag Ann Grindey, Fairfield, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, George, tad a thaid annwyl i Sarah a Susie a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn hefyd â Theresa a theulu Cae gwyn yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam Theresa, y ddiweddar Mrs Angela Orchard.

## Un funud fach ...

LORIS

Dyma beth oedd awr fach ddifyr ac annisgwyl. Dim ond mynd am dro i Ben y Pass oedd y bwriad yn hwyr bnawn Sadwrn. Wyddem ni ddim y byddai'r holl loris yn dod i'n cyfarfod. Roedden nhw'n werth eu gweld, a difyr iawn oedd ceisio eu nabod wrth iddynt ddod yn nes atom. Leyland, ERF, AEC, Atkinson, Scammell, Commer: dyna rai o'r enwau hudolus a welid ar flaen y loris wrth iddynt fynd heibio o un i un, a'r mwyafrif llethol ohonynt yn sgleinio yn eu lifrau lliwgar.

Wedi cyrraedd Pen y Pass, dyna droi'r car rownd a chychwyn adref, a dod yn hamddenol braf. Dotio at y neidr hir o loris a welwn o'm blaen, a chael cip sydyn yn y drych rŵan ac yn y man ar y neidr arall a'm dilyn-nai. Ac wedi cyrraedd Llanberis, gweld bod y loris yn troi i faes parcio Gwesty'r Fictoria. Doeddwn i ddim i fod i'w dilyn mae'n debyg, ond dyna wneuthum, a threulio'r pum munud nesaf yn gwau fy ffordd rhwng y loris er mwyn cael gwell golwg arnynt. Difyr dros ben!

Drannoeth, roedd gen i oedfa yn Neiniolen am 10 o'r gloch, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef ei bod hi braidd yn ben set arnaf yn cychwyn o Lanberis. Ac eto roedd gen i fwy na digon o amser. O leiaf, fe fyddai gen i ddigon o amser oni bai fy mod wedi ymuno â rhes hir o hen loris wrth droi i'r ffordd osgoi ym mhen draw'r pentref! A chredwch fi, mae hen loris yn ara' deg rownd troadau Pen Llyn. Am ryw reswm roeddwn yn eithaf sicr mai i Gaernarfon yr oedden nhw'n mynd. Ond na! Troi i'r dde wnaethon nhw ger Llwyncoed, a minnau'n gorfod eu dilyn ar lôn Brynrefail. Digon yw dweud nad oeddwn yn gwirioni cymaint ar hen loris y bore hwnnw. Roeddwn yn hwyr i'r oedfa, ond o leiaf mi oedd y daith hamddenol wedi rhoi amser i mi lunio'r erthygl hon yn fy mhen!

Mor rhwydd yw bod felly yn ein perthynas â phobl eraill. Gallwn fod yn falch o weld pobl un diwrnod, a'r diwrnod nesaf gallwn fod yn ddiamynedd efo'r un bobl a heb ddim i'w ddweud wrthynt. Mor rhwydd hefyd yw bod yn frwd o blaid rhyw achos arbennig un funud, ac yn oeraidd y funud nesaf. Mae cysondeb a ffyddlondeb a theyrngarwch yn ein hymwneud â phobl ac â gwaith yr Efengyl yn sicr ymysg rhinweddau'r bywyd Cristnogol y cafodd y rhai sy'n dilyn yr Arglwydd Iesu eu galw iddo. Oherwydd oni wyddai Iesu'n dda beth oedd cael pobl yn addo'r teyrngarwch eithaf iddo un diwrnod cyn ei adael y diwrnod nesaf?

*JOHN PRITCHARD*


BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

BYSUS RHIWLAS



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Sychlanhau • Altro Ailwnïo Gwasanaeth Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Crynodeb o gofnodion y 6ed o Fedi.
Cafwyd munud o dawelwch er cof ac o barch i'r diweddar Brifardd Selwyn Griffith a fu'n glerc i'r Cyngor am dros ddeugain mlynedd.
Gweddi. Offrymwyd y weddi gan Richard Ll. Jones.
Cofebion. Penderfynwyd cychwyn y gwaith cynnal a chadw. Addawodd Len Jones gael ail bris ar gyfer y gofeb o flaen y llyfrgell. Len Jones wedi cysylltu a pherchennog Cefn y Waun – nid oes gwrthwynebiad i gael y gofeb oddi yno ond ar amod bod gweithwyr proffesiynol yn ei thynnu i lawr.
Parc Padarn. Ateb Barry Davies yn dweud nad oes bwriad i gloi'r gât er mwyn arbed costau. Ychwanegodd Gwilym Williams mai £40 yr wythnos oedd y tâl am ei chloi. Penderfynwyd gofyn barn Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr amgueddfa.
Safle ail gylchu Rhiwlas. Ateb Steffan Jones ei fod wedi rhoi'r mater yn llaw'r tîm gorfodaeth. Dywedodd Elspeth Mitcheson bod sbwriel yn cael ei adael yno yn wythnosol. Mae Gwynedd yn ei glirio ond mae golwg ofnadwy ar y safle am ran o bob wythnos, beth yw'r gost wythnosol i wneud hyn? Penderfynwyd cwyno eto i Wynedd a phwyso arnynt i gau'r man gwag. Cyfeiriwyd at addewid Gwynedd i osod camera cudd yno ac ychwanegodd Huw P. Hughes nad yw'r camera'n gweithio yn y nos. Dywedodd Jane Pierce, efallai bod y safle yn y lle anghywir, ymhell o'r pentref ac o olwg pobol.
Ffordd Perthi, Penisa'rwaun. Addewid Meirion Williams i ddanfon yr arolygwr ffyrdd yno i weld y gordyfiant y cyfeiriodd Aled Green ato.
Llwybr beicio. Llythyr Dafydd Wyn Williams, o'i grynhoi – rhoir y cais ar raglen y dyfodol ond nid oes sicrwydd y caiff ei wneud. Dywedodd Len Jones a Huw P. Hughes eu bod wedi mynychu cyfarfodydd flynyddoedd yn ôl i drafod llwybr o Lanberis i Gaernarfon yn cynnwys pont dros y ffordd ger Y Fricsan. Pam cymaint o wario yng nghyffiniau Bangor a Chaernarfon a dim yn yr ardal yma.
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dywedodd Len Jones bod Deiniolen wedi cyrraedd eu targed o £5000. Awgrymodd Richard Ll. Jones anfon llythyr i ddiolch a llongyfarch y pwyllgor.
Eisteddfod Penisa'rwaun. Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at gofnod Gorffennaf ei fod wedi beirniadu'r tri ymgeisydd yn gyfartal – angen cywiro'r cofnod bod 1af, 2il a 3ydd wedi eu dewis a rhannwyd yr arian yn £15, £7.50 a £2.50.
Arwydd ffordd. Derbyniwyd cais oddi wrth Wynedd i'r Cyngor fabwysiadu cynnal a chadw arwydd ffordd rhyngweithiol ym Methel. Penderfynwyd yn unfrydol mai cyfrifoldeb Adran Priffyrdd yw arwyddion trafnidiaeth.
Llochesi bws. Llythyr Gwynedd ynglŷn â llochesi bws ychwanegol – eu hatgoffa o'r cais am loches dros y ffordd i hen lyfrgell Deiniolen.
Mannau Pleidleisio. Derbyniwyd rhestr Gwynedd – eu hatgoffa bod etholwyr ardal Perthi, Penisa'rwaun ar restr Deiniolen.
Tir ger hen bowling green Deiniolen – Rhybudd Gwynedd y gosodir clustogau tawelu traffig ger y safle.
Mynwent Macpella. Dywedodd Elfed Williams ei fod wedi derbyn sawl cwyn bod plant yn reidio beiciau o gwmpas y cerrig beddi ac yn achosi perygl i ymwelwyr â'r fynwent. Oes modd cael ffens wrth ochr y llwybr? Awgrymodd Rachel Williams osod gatiau mochyn yno i rwystro beiciau – llythyr i Alun Jones, Gwynedd.
Swyddfa'r Post a Siop, Bethel. Derbyniwyd cais Cledwyn Pierce Jones i Amrywio Trwydded Eiddo (Deddf Trwyddedu 2003). Nid oedd gwrthwynebiad.
Gallt y Foel. Cyfeiriodd Rachel Williams at y peryglon o or-yrru, nid oes tawelyddion traffig ar ôl pasio Rhydfadog i gyfeiriad Gallt y Foel a changhennau coeden dros y ffordd i Cynfi yn gorfodi cerbydau mawr i ganol y ffordd – cwyn i Wynedd.
Trem Eilian. Dywedodd Pat Jones nad yw'r tyfiant wedi ei dorri yn ddigonol er mwyn gweld y ffordd wrth ddod allan o Drem Eilian.
Deiniolen. Cafwyd neges i'r cyfarfod gan Geraint Hughes bod cyflwr y torri gwair ar hyd Lôn y Fron yn ddifrifol. Gwair heb ei dorri na'i glirio yn iawn – cwyn i Wynedd.
Gelli Gyffwrdd. Dywedodd Richard Ll. Jones bod arwydd 'Gelli Gyffwrdd' yn rhy agos at y troad i yrwyr o gyfeiriad Tŷ Mawr, dim digon o rybudd – adroddiad i Wynedd.
Hen lyfrgell Deiniolen. Eglurodd Len Jones nad oes bygythiad i'r Clwb Snwcer er bod yr adeilad ar werth. Mae Cwmni Adfywio Deiniolen wedi sicrhau parhad yr ystafell snwcer fel amod yn y gwerthiant. Mae'r Cwmni hefyd am geisio perchnogaeth yr adeilad i'r pentref.
Cae Cerrig, Deiniolen. Neges oddi wrth Geraint Hughes – mae sawl damwain wedi digwydd yno wrth i geir fethu'r troad o gyfeiriad Deiniolen. Tybiwyd mai gor-yrru oedd y rheswm ond mae achos i gredu bod diffyg ar wyneb y ffordd yn gwneud i gerbydau lithro – cwyn i Wynedd.
Llwybrau
Llwybrau 49, 50 a 141 ger Afon Goch, Fachwen, gofynnodd Len Jones am gael atgoffa Gwynedd o'r cwynion blaenorol. (12/06/11)
Ffynnon Gegin Arthur i Tyddyn Hendre. Neges oddi wrth Phyllis Elis bod clo yn dal ar y gât. (27/07/10)
Awgrymodd y Cadeirydd i aelodau neu aelodau'r cyhoedd dynnu llun o'r diffyg yn dystiolaeth i'r Cyngor Sir.
Cynllunio
Gwrthwynebwyd y cais dros y ffordd i Rhos lan, Bethel.
Derbyniwyd pump cais cynllunio.
Dyddiad y cyfarfod nesaf: 11eg o Hydref 2011.


POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 · 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs:
(01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys


Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

# O'r Cyngor

Medi 2011

Does dim byd mor wir na'r dywediad nad yw amser ddim yn disgwyl am unrhyw un, a drwy gysidro ein bod yn awr rai misoedd i'r flwyddyn olaf ym mywyd y cyngor presennol mae'n anodd credu fod y tair blynedd ddiwethaf wedi mynd heibio mor gyflym, a'r peth gwaethaf, wrth gwrs, yw ein bod i gyd yn dair blynedd yn hŷn.

Fodd bynnag mae yn berffaith gywir dweud fod amser yn gwibio heibio pan mae rhywun yn mwynhau beth sy'n mynd ymlaen o'i amgylch. Yn fy sefyllfa i yn bersonol, mae wedi bod yn bleserus dros ben gweithredu ar ran yr ardal, a thrwy eich cyd-weithrediad a dealltwriaeth mae cryn dipyn wedi cael ei gyflawni i wella ansawdd amgylchedd ac awyrgylch y fro.

Drwy edrych yn ôl mae'n werth troi golwg ar gynlluniau sydd wedi eu cwblhau a bod eu gwerth yn amlwg. O'r rhain i gyd mae dau gynllun sydd, yn fy nhyb, i wedi cyfrannu'n helaeth at esmwythau problemau'r pentref:

Llifogydd

O bosib un o'r problemau mwyaf oedd yn ein wynebu oedd problem llifogydd ac mae'r gwaith o gyflawni'r sustem draenio o amgylch Saron, Erw Bian a Ffordd Crawia ger Capel y Cysegr wedi dileu y boen meddwl a oedd yn dod i nifer o'r pentrefwyr pan oedd y tywydd yn eithriadol o wlyb. Roedd cost y gwaith yma dros £800,000, gyda chyfraniad helaeth yn dod drwy grant o'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid estyn ein diolchiadau i swyddogion y Cyngor a fu'n ddygn iawn yn eu gwaith i allu denu'r arian yma er budd y pentref.

Er fod y gwaith yn y rhan uchaf o'r pentref wedi bod yn llwyddiannus, rhaid peidio anghofi'r problemau a fu flynyddoedd yn ôl yn ardal Penrhos, gyda'r Cadnant yn gor-lifo. Rydym yn dal i ddisgwyl gwaith i'w wneud yn y fan yma. Hefyd y problemau o'r tanciau storio yn dal i orlifo carthffos i'r caeau yn cyfochri Tan y Fynwent.

Diogelwch ffyrdd a parcio

Gwaith arall sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr yw'r gwaith o greu man parcio a chroesfan ar gyfer yr ysgol, er fod nifer wedi mynegi pryder ar y cychwyn ar effaith y gwaith yma, mae nawr i'w weld yn derbyn cefnogaeth gryf yn lleol. Un rhan o gynllun diogelwch ein plant yw'r arwydd electroneg sydd wedi ei leoli tipyn uwch na Ceir Cymru. Mae'n anodd credu fod yr arwydd yma heb fod yn gweithio o gwbl ers dros dair blynedd. Rwy'n ceisio cael rhyw synnwyr ar be sy'n atal y gwaith atgyweirio, neu yn well byth cael arwydd newydd yn ei le. Dal i ddisgwyl ateb synhwyrol mae gennyf ofn.

Byddaf hefyd yn cael llawer o du allan i'r ardal yn holi sut ar y ddaear ei bod wedi bod yn bosib cael gosod y pafin ar ochr y B4366 at Erw Bian. Wel, yr ateb syml yw: hyd at ddwy flynedd yn ôl roedd cynghorwyr yn cael swm o arian i'w ddefnyddio at gyflawni man-welliannau o fewn eu hardaloedd, a gan fod y cynllun yma i gyd ar dir y cyngor, roedd yn golygu nad oedd eisiau angen prynu tir i'w gyflawni, yna fe ddefnyddiwyd swm o'r arian at y gwaith ac, yn ôl y defnydd, mae yn amlwg wedi bod yn arwain sydd wedi ei ddefnyddio yn synhwyrol iawn.

Beth felly am y gwaith sydd wedi ei gwblhau yn y flwyddyn a fu. Does dim dwywaith fod cwblhau'r mannau parcio o flaen y Cremlyn a hefyd ym Mro Rhos wedi lleihau tipyn ar y problemau parcio a hefyd tacluso dau safle a oedd yn wirioneddol ddolur ar lygaid. Yn anffodus, gyda'r cynnydd mewn nifer o geir a moduron yn gyffredinol ni fydd yn bosib creu cyflenwad digonol o lefydd parcio nid yn unig yn yr etholaeth yma ond trwy'r sir yn gyffredinol. Er hyn rwy'n awyddus i dderbyn unrhyw awgrym am gyfle i geisio ychwanegu at gyfleusterau yn y fro. Drwy ystyried hyn rwyf wedi gofyn i'r Adran Briffyrdd edrych ar y llain tir sy'n ymylu ar ffordd yn Nhre'r Gof.

Materion Diogelwch ychwanegol

Er fod creu mannau parcio ychwanegol pan fo'n bosib yn rhan allweddol o hwyluso symudiad traffig o fewn yr ardal, yn anffodus mae parcio ar y stryd a'r palmentydd yn creu problemau diogelwch a hefyd anawsterau i lawer iawn o drigolion y fro. Mae problemau fel hyn yn gyffredinol yn ardal Saron a hefyd ym mhentref Seion. Rwyf wedi derbyn nifer o gwynion, yn enwedig gan drigolion Saron, yn ymwneud â gor-yrru a pharcio ar gyffyrdd lleol. Un lleoliad eithriadol o beryglus yw'r gyffordd o Saron gyda'r ffordd fawr, sef y B4366. Mae arolwg cyflymder a diogelwch wedi ei wneud yn ardal Saron gyda'r canlyniad y bydd llinellau melyn yn cael eu gosod mewn nifer o leoliadau o amgylch Saron. Hefyd rwy'n disgwyl ymateb i'r cais i gael gosod cyfarpar atal gyrru ar y ffordd sy'n rhedeg heibio'r Neuadd Goffa.

Yn naturiol mi fydd y gwaith yma yn cyfyngu ymhellach ar gyfleusterau parcio ar y stryd yn Saron ond yn fy nhyb i mae'r cwestiwn o ddiogelwch ein plant yn goresgyn hyn.

Ffordd Osgoi

Rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad ar lwybr y ffordd. Fel y gwyddoch, roedd nifer o gynigion a'r un wnes i ei gefnogi oedd y llwybyr melyn a fuasai'n gweld ffordd newydd yn cael ei chreu o Dinas, Bontnewydd i Gylchfan Plas Llanfair Is Gaer. Yr un llwybr fuasai'r ffordd borffor yn ei ddilyn ond buasai'n ymuno â ffordd osgoi'r Felinheli ger Garreg Goch. Mewn gwirionedd mi fuasai'r un o'r ddau lwybr yma yn fendithiol dros ben i Fethel oherwydd mi fuasai'r traffig trwm i gyd yn osgoi'r pentref, a dyna fendith fuasai hynny.

Yn ystod Rhagfyr 2010 fe wahoddwyd cynghorwyr sydd â'u hardaloedd ar lwybr y ffordd i gyflwyniad ar benderfyniad y cyngor a'r y llwybr y bydd y corff yn ei gefnogi. Y llwybr hwnnw yw'r dewis porffor. Drwy ystyried buddiant i'r etholaeth yma yn gyffredinol mae'n amlwg mai dyma'r llwybr mwyaf synhwyrol oherwydd dyma'r ffordd y buasai'r loriau mawr yn ei ddefnyddio. Ar ran y llwybr melyn buasai'r tynnu i fyny o Gylchfan Llanfair yn dal i wneud teithio drwy Fethel yn hwylusach i'r peiriannau mawr.

Mae deiseb wedi ei chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthwynebu'r llwybr porffor. Ond, drwy gysidro'r holl dystiolaeth a phryderon o fewn yr etholaeth, yna y llwybr Porffor fydd yn dod â budd mwyaf i'r ardal yma.

Mae DVD o'r gwahanol lwybrau yn dangos yr effaith ar drafnidiaeth yn fy meddiant, os am gael golwg cysylltwch.

Bro Eglwys

Mae cryn bryder ynglŷn â'r sefyllfa gyda'r tir sy'n sefyll heb ei ddatblygu ynghanol y stad. Mae caniatâd cynllunio yma i adeiladu 12 tŷ ac, i ddweud y lleiaf, nid yw'r datblygwr yn cadw'r safle yn daclus o gwbwl. Yn ogystal â'r hawliau cynllunio yma, fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd rhyw gwta ddwy flynedd yn ôl. Mae'r cynllun yma yn dynodi fod y tir yng nghefn y Neuadd


PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS

Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

# *Parhad* O'r Cyngor

Goffa yn gymwys i adeiladu 24 eiddo yno, gyda 40% o'r rhain yn dai fforddiadwy at ddefnydd lleol. Mae cyflwr y rhan yma o Bro Eglwys yn dal y datblygiad yma'n ôl. Rwy'n pwyso ar yr adran gynllunio i gael trafodaeth gyda pherchenogion y tir i geisio cael rhyw symudiad, a hefyd i edrych ar y posibilrwydd o edrych ar gamau eraill i wneud y tir yma ar gael i adeiladu. Dyma fydd fy mlaenoriaeth dros y misoedd nesaf.

Band llydan (Broadband)

Yn ddiweddar mae cyngor Gwynedd wedi hysbysu cynllun sydd ar y gweill gan Lywodraeth y Cynulliad fod arian grant ar gael i ardaloedd sydd gyda chyflymder llai na 2mbps ar eu systemau gwe. Yn ddiweddar rwyf wedi derbyn nifer o gwynion fod cyflymder ym mhentrefi Bethel a Seion yn rhedeg o 0.7mbps a 1.56mpbs. Yn ogystal, ar adegau o'r dydd, mae cyfrifiaduron o fewn llawer i ardaloedd yn y pentrefi yn cau i lawr yn gyfan gwbwl.

Rwyf wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth y Cynulliad i geisio cael gwell dealltwriaeth ar y broblem.

Fel pob system Band llydan yn y fro mae'r Gwasanaeth yn dibynnu ar wifrau teleffon, a hefyd y pellter o'r gyfnewidfa teleffon, Felinheli yn ein hachos ni. Hefyd mae nifer sy'n defnyddio'r we ar adegau yn effeithio ar y cyflymdra. Felly, os oes llawer yn defnyddio'r system mae y cyflymdra lawr-lwytho yn araf dros ben. Yn anffodus does dim modd ar y funud gwneud dim am hyn oherwydd ein bod yn dibynnu ar y gwifrau ffôn presennol. Er gwaethaf hyn yma ym Methel mae'r llwybr 'fibre optic cyflym' yn rhedeg dan y ffordd trwy'r pentref. Mae'n sicr eich bod yn cofio'r gwaith yn mynd ymlaen rhyw dair blynedd yn ôl. Ar y cychwyn system oedd hon i wasanaethu Stadau Busnes Gogledd Cymru, fel Parc Menai, Stâd Cibyn a Doc Fictoria. Ond erbyn heddiw, yn ôl fy nealltwriaeth i, mae cwmniau yn awr gyda'r gallu i gymryd mantais o'r Gwasanaeth cyflym yma.

Rwyf wedi dechrau gwneud ymholiadau,i ac yn ôl pob golwg mi fuasai'n bosib trefnu cysylltiad cyflym i'r ardal ond buasai hyn yn ddibynnol ar y galw. Mae cynllun tebygol yn barod yn rhedeg yn llwyddiannus iawn yn Rhiwlas.

Os oes digon o ddiddordeb mewn edrych i mewn i gynllun o'r fath fe drefnaf gyfarfod yn Neuadd Goffa Bethel, ble bydd posib cael arbenigwr yn y maes i egluro'r posibiliadau ac, wrth gwrs, y gost. Disgwyliaf yn awyddus am eich awgrymiadau at gynlluniau i wella'r ardal ac, wrth gwrs, os oes diddordeb mewn cynllun 'Bandllydan Cyflym' neu os oes eisiau trafod rhywbeth arall, rwyf ar gael ar 01248 670 666 neu drwy e-bost huw.hughes@lineone.net.

Huw Price Hughes
Cynghorydd Plaid Cymru
Bethel a Seion

## Côr Meibion Dinas Bangor

Pentref Soll hefo'r eglwys yn y cefndir.

Dyma lun o'r Côr yn yr eglwys yn Soll.

Ar ôl misoedd o baratoi aeth Côr Meibion Dinas Bangor i Awstria ar 6 Medi gan hedfan o faes awyr Manceinion i Munich ac yna bws i Soll yn y Tirol. Dyma'r trydedd gwaith i'r Côr ymweld â Soll. Yr oedd y tywydd yn wych ar hyd yr wythnos.

Uchafbwynt yr ymweliad oedd y cyngerdd yn yr eglwys ym mhentref Soll ar nos Sul 11 Medi - dyddiad hanesyddol iawn.

Dyma un o'r eglwysi harddaf yn Awstria ac yn cael ei chydnabod fel enghraifft wych o bensaerniaeth cyfnod y Baroc. Cyfeirir ati hi yn aml fel eglwys gadeiriol oherwydd ei harddwch anhygoel.

Union ddeng mlynedd yn ôl, ar 11 Medi 2001 pan syfrdanwyd y byd gan drychineb Efrog Newydd, yr oedd y Côr yn canu yn yr eglwys hon yn Soll. I gofio am y cyd ddigwyddiad hwn gofynnwyd i bawb sefyll am ychydig o dawelwch cyn yr eitem olaf.

Cymerwyd rhan yn y cyngerdd arbennig hwn gan y Côr gyda Lowri Roberts Williams yn cyfeilio,Gareth Hughes unawdydd (Euphonium) gyda Gwilym Lewis yn cyfeilio iddo, Kevin Grafton o Gaint yn organydd a James Griffiths yn arwain.

Yr oedd yr eglwys yn llawn a chafwyd derbyniad gwresog iawn gyda phawb o'r gynulleidfa ar eu traed ar y diwedd i gymeradwyo.

Ymysg y darnau a ganwyd yr oedd trefniant arbennig i'r Côr ac i'r achlysur gan Gwilym Lewis, Dirprwy Arweinydd, o'r hen alaw 'Tros y Garreg' gyda Gwilym yn arwain.

Yr oedd Kevin Grafton wedi dewis rhaglen o gerddoriaeth organ modern i wrthgyferbynnu a cherddoriaeth mwy traddodiadol y Côr. Dwy eitem gafodd gymeradwyaeth arbennig oedd 'American Trilogy' a 'Morte Criste', gyda'r organ yn ymuno i gyfeilio ym mhennill olaf y ddwy gân.



Canodd Gareth Hughes ddau ddarn ar yr euphonium fel unawdydd ac yr oedd ansawdd y perfformiad yn wych yn yr adeilad hynod hwn. Unwaith eto daeth y perfformiad hwn a chymeradwyaeth gwresog iawn.

Cyflwynwyd yr eitemau gan Howard Hughes.Yr oedd Howard wedi darparu ei gyflwyniadau mewn Almaeneg a hynny yn hollol drwyadl ac effeithiol.

Norman Evans oedd yn gyfrifol am gadw trefn a gosod y Côr ac unwaith eto yr oedd yr ymddangosiad yn drawiadol a phroffesiynol fel arfer.

Ar ddiwedd y cyngerdd cafodd James Griffiths yr Arweinydd a Lowri Roberts Williams y Cyfeilydd gymeradwyaeth arbennig gan y gynulleidfa.

Yn ystod yr wythnos cafwyd ymweliad â Salzburg, tref enedigol Mozart wrth gwrs, a hefyd i Berchtesgaden yn yr Almaen gan ymweld â Nyth yr Eryr (Eagle's Nest) tŷ Hitler a gafodd ei adeiladu ar ben y mynyddoedd o gwmpas Berchtesgaden.

Dychwelwyd adref ar 13 Medi ar ôl taith lwyddiannus iawn a gafodd ei threfnu gan Hugh Harry Williams, trefnydd teithiau y Côr. Y mae ein dyled yn fawr i Hugh am ei holl waith a'i drefniadau arbennig unwaith eto.

Mae'r holl wybodaeth am daith y Côr a mwy ar gael ar ein gwefan newydd sef cormeibiondinasbangor.org


**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

www.fframia.com
**FFRAMIA**
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Gwynedd Ni
Gwybodaeth am ddim am wasanaethau plant, pobl ifanc a theuluoedd
- Manylion digwyddiadau lleol
- Clybiau – hamdden, chwaraeon a chyfleusterau adloniant
- Gwybodaeth iechyd ac addysg
- Gwasanaethau cefnogi teuluoedd
- Llinellau cymorth
- Cymorth i chwilio am ofal plant ...a llawer mwy!

**Ydych yn gwybod am**
ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol sydd ymlaen dros wyliau'r haf neu'r misoedd nesaf?
Gadewch i Gwynedd-Ni wybod ac mi fyddwn yn falch o'u hysbysebu ar ein safle we neu ar ein tudalen facebook!
Ffôn: 01286 675570
Tecst: 07920 083909
ebost: gwynedd-ni@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd-ni.org.uk
Gwynedd-Ni @GwyneddNi

**NEUADD AR GAEL I'W LOGI YN LLANRUG**
YN DAL HYD AT 50 YN EISTEDD
CYFLEUS I GYNNAL CYNHADLEDDAU BYCHAIN, GWEITHDAI, SESIYNAU HYFFORDDIANT, YMARFER GRWPIAU CERDD LLEOL a.y.b.
Toiledau (yn cynnwys rhai Anabl) ar gael.
Cegin fach a digon o lefydd parcio oddi ar y ffordd
Nid yw'n bosib i'r cyhoedd weld i fewn. Addas ar gyfer cadeiriau olwyn
Gellir gwneud trefniadau i fusnes lleol ddarparu bwffe os oes angen. Darparir fwy o wybodaeth ar gais.
Ffoniwch- 07909678784 neu 07747678291

# Clwb Gwyliau Efe

Cynhaliwyd Clwb Gwyliau Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug, Gorffennaf 25–29, 2011. Hwn oedd y Clwb Gwyliau cyntaf o'i fath i Efe ei drefnu. Pwrpas y Clwb Gwyliau oedd helpu'r plant i ddysgu pwy yw Iesu a beth ddylai ein hymateb fod iddo. Roedd hefyd yn gyfle i ni sy'n ymwneud â'r Cynllun gael rhyw awgrym o'r math o ddiddordeb sydd yn yr ardal i gynnal gweithgaredd plant parhaol. Felly, fe ddechreuon ni yng Nghapel y Rhos ddydd Llun, Gorffennaf 25, gan weddïo'n daer ond heb unrhyw syniad beth oedd yn mynd i ddigwydd!

Yn anffodus, cawsom ergyd hyd yn oed cyn i'r wythnos ddechrau. Roedd fy chwaer yng nghyfraith, Rachel Settatree, Gweithwraig Plant ac Ieuenctid 'Trobwynt', wedi cytuno i'n cynorthwyo gyda'r wythnos gan ei bod hi wedi cynnal sawl clwb tebyg yn ei hardal ei hun. Ond yn anffodus, roedd hi'n sâl ac felly'n methu cymryd rhan. Ond diolch i Dduw fod hyd yn oed y sefyllfa hon yn rhan o'i gynllun ar gyfer yr wythnos, ac fe ddysgais i bwyso'n fwyfwy ar nerth ei Ysbryd Glân o ganlyniad i'r siom o fethu cael ei chymorth. A dyna'n union oedd fy mhrofiad ym mhob agwedd o'r wythnos, fel y gwelwch.

Felly, yn ôl at fore Llun Gorffennaf 25! Dyma ni'n disgwyl yn y capel, heb sicrwydd a fyddai unrhyw un yn dod y bore cyntaf. Ond, diolch i Dduw, daeth rhyw 8 o blant, oedran blwyddyn 3-6, o bentrefi Bethel, Waunfawr, Llanberis a Llanrug. Yn ystod yr wythnos, roedd y niferoedd yn amrywio o 4 i 10, a diolchwn i Dduw am bob un a ddaeth atom. Cawsom amser da wrth ddysgu bob dydd am wyrthiau Iesu yn Efengyl Ioan, a phob un ohonynt yn dangos rhywbeth am bwy oedd Iesu a sut y dylem ni ymateb iddo.

Cawsom help yn hyn o beth gan 'Dr Cliw', oedd wedi trafferthu i lanio ei tardis ar ben Castell Caernarfon a dod aton ni bob dydd trwy fideo link! Roedd yn gadael cliwiau er mwyn i ni ddarganfod pwy yw'r person pwysicaf mewn hanes - Iesu Grist, wrth gwrs! Fe adawodd y Doctor gliw i ni bob dydd ynghylch y stori, a'r hyn oedd y stori yn ei ddysgu i ni. Fe ddysgon ni hyn trwy'r stori ei hun, canu caneuon egnïol, gemau, crefft, a thrwy gynnal cwis bob dydd yn ogystal â chael adnod i'w dysgu.

Fe ddysgon ni am Iesu'n troi'r dŵr yn win yng Nghana Galilea, a'i fod yn dangos mai ef yw creawdwr y byd; Iesu'n iachau dau berson, gan ddangos ei fod yn gwybod beth yw'n problem fwyaf ni (sef ein bod wedi cael ein gwahanu oddi wrth Dduw oherwydd ein pechod), ond mwy na hynny hefyd, sef ei fod yn gwybod sut mae datrys y broblem honno. Gwelon ni - trwy'r wyrth o fwydo'r Pum Mil - bod Iesu'n gallu rhoi i ni beth yr ydym ei angen, ac mai ef ei hun yw ein hangen mwyaf un.

Fe ddysgon ni fod Iesu'n gallu rhoi golwg i bobl sydd yn llythrennol yn ddall, ond ei fod hefyd yn gallu agor ein llygaid ni i weld sut bobl ydym ni go iawn (pechaduriaid) a sut berson yw Duw go iawn (Tad sydd yn ein caru ni ag sy'n maddau i ni) am mai Ef yw goleuni'r byd. Ac yn olaf, fe welsom ni - trwy'r hanes am godi Lasarus yn ôl yn fyw - mai Iesu yw'r Atgyfodiad a'r bywyd, ac felly nad oes angen i ni ofni marwolaeth os credwn ninnau ynddo.

Felly, i grynhoi, cawsom wythnos anhygoel, ac i mi'n bersonol, roedd yn fraint aruthrol i gael dod i adnabod y plant yn dda. Hefyd, profais nerth yr Ysbryd Glân yn fy llenwi ac yn fy ngalluogi i gyflawni ei waith. 'Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd' (Sechareia 4:6). Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r rhai a ddaeth i'm cynorthwyo, sef Gwenno Williams, y Parchg Marcus Robinson, a Gwenno o Gapel Caersalem, Caernarfon, yn ogystal â'r holl rieni a ofalodd bod eu plant yn dod. Ein gobaith a'n gweddi yw nad digwyddiad ar ei ben ei hun oedd hwn ond dechreuad i rywbeth newydd yn ein bro ar gyfer plant.

Andrew Settatree

## Myfyrion Pregethwr Lleyg

Pam llenwi fy holl Sulia?
Pam chwysu gwneud pregetha?
Pam caru mynd – a'i chyfri'n fraint
at saint yr holl enwada?

Mae paent ffenestri'n plicio
Mae'r tamp hyd walia'n mapio
Mae ogla hen yn llenwi'r ffroen
Mae'n boen i'w weld – a chofio!

Ystrydeb bellach d'wedyd
(ond o – mae'n codi'r ysbryd)
Lle bynnag bo 'y dau neu dri'
Y Rhi fydd yno hefyd?

O ddyfnder 'r ymysgaroedd
fel su o bêr aberoedd,
gall oedfa droi ar dro yn falm
drwy salm hen iaith y nefoedd.

Nid Sul yw Sul di-'foddion'
yng ngosteg yr oedfaon,
ceir weithiau ddracht o ryfedd rin
a gwin Ei addewidion.

Daw hedd i'm byd aflonydd
fel gwlith neu fanlaw'r mynydd
a'm mwydo yn yr Iôr a'i ras
a theyrnas gwir lawenydd.

Norman Closs





Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones
01286 650255

Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ
CYSYLLTWCH Â
fflam .biz
JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: 01286 678310
(ar agor 9am–5pm)

Neu ffoniwch 0800 085 3741 neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE Concern · age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.

Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO
Mewnol • Allanol
Drylining
Plastfyrddio Yn Ei Le
Ymgynghori Ac Amcangyfri Am ddim

PENCAMPWR PRYDAIN 2009
Enillydd Dosbarth Plastrwr a Chyffredinol

Tel. 07760393155
ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

## APÊL I'R MERCHED

Dros y tymhorau rydym wedi 'mabwysiadu' tîm rygbi Caernarfon fel ein tîm 'ni' i'n bechgyn ieuenctid a hŷn. Felly Fron Dinas yn yr hen ddyddiau fel 'ein' tîm criced. Mae llawer o'n merched yn chwarae i dîm hoci Caernarfon. Bu traddodiad gref yn y gamp yn Ysgol Brynrefail ers sawl blwyddyn. Mae'r clwb yn falch o groesawu aelodau newydd ac yn rhedeg cynllun hyfforddiant i aelodau ieuanc. Mae'r tîm yn cyfarfod i ymarfer ar gae pob tywydd Llanrug am 7.15pm ar nos Fercher. Galwch draw.

## NEWID AGWEDD

Y tro diwethaf cyfeiriais at ddiffyg Cymreictod yng ngweinyddiad gemau criced Morgannwg. Diddorol oedd y cyhoeddiad diweddar fod eu tîm cystadlaethau undydd yn newid eu henwau o Glamorgan Dragons i'r Welsh Dragons oherwydd, yn ôl dyfyniad un o'r pwyllgor, eu bod yn 'cynrychioli gwlad gyfan'. Cawn weld!

## CNOI BYSEDD

A'r Eco yn mynd i'w wely, nid ydym yn siŵr a fydd Cymru wedi gwneud digon yng Nghwpan Rygbi'r Byd i gyrraedd rownd yr wyth olaf. Anlwcus ofnadwy yn erbyn De'r Affrig, a chrafu curo Samoa – neu ail dîm Seland Newydd, chwedl rhai. Diddorol iawn yw sylwi i pa wledydd mae rhai o'r 'ynyswyr' yn chwarae. Cofier hefyd bod nifer yn chwarae i glybiau blaenllaw Ewrop. Mae'r bwlch rhwng y 'mawrion' a'r gwledydd llai yn closio bob cwpan Byd. Gobeithio mai llith gadarnhaol fydd gennyf mis nesaf. Ymlaen y Cochion!

## DATBLYGIAD PENDANT

Llongyfarchiadau i Tomos Emlyn o Lanrug, neu glwb Oldham Athletic erbyn hyn. Braf oedd clywed iddo gael ei ddewis i garfan proffesiynol dan 19 Cymru ar gyfer gemau yn Ewrop yn y dyfodol. Bydd yn elwa yn sicr ac, yn bwysicach, yn dal llygaid Brian Flynn. O gofio y llwybr pendant trwy'r timau dan lywyddiaeth Flynn dymunwn yn dda i Tomos.

## RASYS MYNYDD

Gyda'r tymor yn dirwyn i ben, daeth mwy o lwyddiannau lleol ddiwedd Awst ac yn ystod Medi. Ar y Cnicht dros Ŵyl y Banc, roedd Paul Jenkinson o'r Waunfawr yn drydydd yn y ras, ac yn ail dros 40 oed (dim ond 19 o'r hanner cant fu'n cystadlu oedd dan ddeugain). Llifon Foulkes o Lanberis ddaeth yn chweched, a thrydydd dan 40 oed a Dafydd Thomas o Lanrug yn drydydd ar hugain a chyntaf dros 60 oed. Eleni, am y tro cyntaf ers blynyddoedd roedd yr amseroedd gryn dipyn yn arafach, a hynny oherwydd y tywydd gwlyb a wnaeth lethrau creigiog y Cnicht yn beryglus o lithrig.

Y tywydd fu'n fuddugol hefyd ar ras Pedol Peris. Roedd yr amgylchiadau mor ddrwg fel y bu'n rhaid i'r trefnwyr gwtogi'r ras, a throi'r rhedwyr oddi ar y Lliwedd a chopa'r Wyddfa. Rhedwyr lleol oedd yn fuddugol er gwaetha'r tywydd, gydag Ian Ridgeway (Nant Peris) yn gyntaf, Mathew Roberts (Llanberis) yn ail a Hugh O'Donnell (Llanberis gynt, ond Cumbria bellach) yn drydydd – a doedd ei frawd, Rory, ddim yn bell iawn tu ôl chwaith.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' eich cyrraedd bydd pencampwriaethau rhedeg mynydd i blant dan 16 oed wedi eu cynnal ar Y Gogarth yn Llandudno. Siawns na chawn adrodd am lwyddiannau lleol yn y rhifyn nesaf. Erbyn hynny hefyd bydd pencampwriaeth Rhedeg Mynydd y Gymanwlad wedi ei chynnal ar lethrau Moel Eilio uwch Llanberis. Dyna osod ein bro ar fap rhyngwladol rhedeg mynydd unwaith yn rhagor.

Ac i'r rhai sydd wedi hen flino ar ddringo'r mynyddoedd, mae'r tymor rhedeg traws gwlad eisoes wedi dechrau! Bydd ras gyntaf yr ardal hon yn cael ei chynnal ar gaeau Treborth ym Mangor ar Sadwrn cyntaf mis Hydref. Os pery'r tywydd gwlyb bydd y rhedwyr yn drybola o fwd erbyn diwedd y pnawn.


**MOLI**

Mwy O Le i'r Iesu
Oedfa fisol
yn Capel Coch, Llanberis.
Trefnir ac arweinir yr oedfa gan
ieuenctid ac arweinwyr CIC
(Clwb Ieuenctid Cristnogol)
Os nad oes oedfa nos yn eich capel / eglwys chi, mae croeso cynnes i chi ddod atom i'r oedfa hon a gynhelir ar yr ail nos Sul o'r mis
Bydd yr oedfa nesaf am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Hydref 9

*Croeso hefyd i chi aros am baned ar ôl yr oedfa.*


# Ar ben arall i'r lein






Cyn belled ac mae'r Afon Seiont a Llyn Padarn yn y cwestiwn, yna sobor ofnadwy yw'r tymor wedi bod hyd at ganol Medi, yr holl gyfanswm o'r helfa yw pedwar eog a, chredwch i byth, daeth un o'r rhain o Lyn Padarn sef 'sgodyn 8 bwys. Mae llun wedi cyrraedd yma ond does dim enw i'r pysgotwr llwyddiannus. Y peth a oedd yn tynnu fy sylw oedd fod yr eog yma wedi bod yn y sustem ers rhyw fis, tybed a oes nifer wedi cymryd mantais o'r dŵr uchel i redeg heb oedi i'r llyn. Fel arfer os oes nifer o eogiaid o gwmpas maent i'w gweld yn neidio ger Traeth Bach ar y Fenai, y flwyddyn yma prin iawn yw'r neidio wedi bod. Ond cofiwch yr hen ddywediad 'Tydi un wennol ddim yn gwneud haf.' Buaswn yn ddiolchgar dros ben o gael gwybodaeth am y daliwr.

Sobor iawn yw'r helfa sewin hefyd, gyda rhyw 40 yn unig wedi eu bachu. Rhaid cofio, yn nechrau'r 1990au cyn i'r problemau amlygu eu hunain ar Lyn Padarn roedd dros 200 o eogiaid a dros 1500 o sewin yn dod i'r rhwyd. Mae afonydd eraill Gwynedd i gweld yn dal iddi yn dderbyniol dros ben – ond y fro yma mae gennyf ofn.

Mi fuasai'n drychinebus i ddyfodol y Gymdeithas oni-bai fod ein llynnoedd eraill sef Cwellyn, Nantlle, Dywarchen a Cwm Silyn yn 'sgota'n eithriadol o dda. Mae Pysgotwyr o pob rhan o'r wlad yn dod i flasu'r wledd arbennig sydd ar gael. Bydd gwledd fel arall i ddod hefyd gan fod Dudley wedi bod yn ffilmio at ei gyfres ar lannau Llyn Nantlle. Daeth dau ymwelydd arall i flasu'r 'sgota, sef newyddiadurwyr o wlad Belg a phwrpas eu hymweliad oedd sgwennu erthygl i'w chyhoeddi drwy Ewrop. Cawn weld be ddaw allan o hyn i gyd! Diolch i Rhys Llewelyn o Asiantaeth yr Amgylchedd am drefnu'r fenter ac i Edwin Lewis, Penygroes, am roi o'i amser i weinyddu'r criw.

Cefais adroddiad gan un a oedd wedi ymweld â Llyn Cwm Silyn – 'y 'sgota gorau mae wedi gael am frithyll brown gwyllt gyda dau ddwsin wedi dod i'r rhwyd' – Ia, a'r cwbwl wedi eu rhyddhau yn ôl i'r llyn.

'Rydym yn ffodus dros ben fel cymdeithas fod perchenogion y Cwellyn Arms, Rhyd Ddu, wedi ymgymryd yn llwyr at hybu 'sgota yn y fro gyda thocynnau pysgota, hurio cychod a gêr 'sgota y ar gael yno. Oes 'na westy neu dafarn yn Nyffryn y Seiont tybed gyda'r un gweledigaeth? Ydi, mae o fudd mawr i'r busnes, y clwb a'r fro yn gyffredinol.

Gair i atgoffa'r aelodau y bydd estyniad arbrofol i'r tymor ar y Seiont eto eleni, gobeithio i gadarnhau fod yr eogiaid ddim yn rhedeg yn iawn hyd nes i'r tymor cyfreithiol ddod i ben. Cofrestrwch ar www.cpwf.co.uk mae'r rhaid bod yn ddeilydd ar drwydded eog a sewin Asiantaeth yr Amgylchedd i fod yn gymwys.

Rydym yn dal i ddisgwyl adroddiad llawn Asiantaeth yr Amgylchedd a'r wreiddyn problemau Padarn a hefyd ymateb Dŵr Cymru i'r ddogfen. Gobeithio bydd yn bosib ymhelaethu ar hyn mis nesaf.

**Huw Price Hughes**


GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

• Cig o ffermydd lleol
• Partïon rhwng 40 a 400!
• Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
• Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ☎ 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk





**GWYNANT PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

# Chwaraeon



## MANTEISIO AR BROFIAD

Erbyn byddwch yn darllen hyn gobeithio y bydd ardal Llanberis yn dathlu llwyddiant yn un o achlysuron mawr rhedeg mynydd. Dewiswyd Llanberis fel cartref i un agwedd o gystadleuaeth Rhedeg Mynydd y Gymanwlad. Eco o'r atyniad mawr yng nghystadleuaeth y Rhwyfo yng ngemau'r Gymanwlad 1958. Cynhaliwyd chwe ras o gwmpas ardal Dyffryn Peris, a rhai o brif redwyr y byd yno.

O gofio Ras yr Wyddfa a Marathon Eryri, heb sôn am y llu o rasys lleol dan reolaeth Rhedwyr Eryri, mae cryn brofiad mewn trefnu yn yr ardal erbyn hyn. Clod i'r criw yma yw eu bod wedi eu dewis i lywio y gweithgaredd. Clod mawr felly i Stephen Edwards a'i griw profiadol. Yn sicr, mae'r ardal yma ar fap y byd yn y maes hwn bellach.

Un arall fydd yn falch o groesawu'r gystadleuaeth yw Arwel Lewis o Fethel. Mae Arwel yn dal i gystadlu ar ran clwb Rhedwyr Eryri ac erbyn hyn yn un o ddewiswyr tîm Cymru. Dyma gyfle iddo fwrw llygad barcud ac asesu safon ddisgwyliedig rhedwyr ar y lefel hon. Gobeithio bydd y gystadleuaeth hon yn denu mwy o achlysuron tebyg yn y blynyddoedd nesaf.



## Y RHEDIAD YN PARHAU

Bydd clybiau Llanrug a Llanberis yn hapus gyda'u perfformiadau dros y mis diwethaf. Caiff hogia Llanrug y cyfle i dalu'r pwyth yn ôl i glybiau'r Canolbarth yng nghwpan Cymru, wedi i Lanfair ym Muallt guro Llanberis yn y rownd gynharach. Mae arian gwobr dda am ennill pob rownd yn y cwpan erbyn hyn, a buasai denu un o'r timau 'mawr' eto i Eithin Duon yn gaffaeliad da i'r clwb. Nid yw pethau cystal yn y gynghrair i Lanrug ond mae sefydlogrwydd y garfan yn fantais iddynt dros y tymor. Un sydd yn denu sylw yw Gruff John Williams. Mae yn gyffyrddus ar y bêl a natur ymosodol naturiol i'w gêm. Gobeithio na fydd taid yn ei hudo i chwarae draw yn y Bala!

Ail o hyd yw Llanberis yn yr ail adran ac heb golli mewn 5 gêm. Maent o hyd yng nghystadleuaeth yr FAW trophy wedi buddugoliaeth gampus draw yn Brickfield Rangers yn ardal Wrecsam. Tipyn o deithio i'r Darans yn y cwpanau eleni. Gyda Llanrug yn chwalu Llangollen 5-0, efallai y cawn gêm ddarbi i danio pnawn Sadwrn o Hydref.

## Y BELAWD OLAF?

Noson gymysg o emosiynau fu hi i Iwan Roberts o Lanrug yn noson wobrwyo Clwb Criced Bangor. Yn ystod y tymor bu Iwan yn dioddef fwyfwy gydag anaf i'w goes, ac felly daeth ei gyhoeddiad ei fod yn 'ymddeol' o'r gêm, fel chwaraewr beth bynnag.

Yn gynharach, cyflwynwyd tarian prif fowliwr tîm cyntaf y clwb i Iwan. O gofio natur tamp sawl wiced eleni roedd 30 wiced y troellwr llaw chwith ar gyfartaledd o 21 rhediad yn foddhaol iawn.

Dechreuodd Iwan ei yrfa gyda chlwb Fron Dinas a rhoddodd wasanaeth teilwng iddynt rhwng 1985-1997. Cafodd gryn lwyddiant yno yn yr hen gynghrair Môn ac Arfon. Pan chwalodd y gynghrair honno, a'i chyplysu dan faner Cynghrair Gogledd Cymru, ymunodd Iwan fel nifer o Fron Dinas â chlwb Bethesda. Yno gyda eraill o hogia Fron Dinas, fel Eifion ac Ieuan Jones, cynrychiolodd Iwan dîm y Sir. Cafodd sawl tymor draw ar Barc Meurig ac yn sydyn ennill parch yn Adran Gyntaf y gynghrair.

Yn nhymor 2001 sefydlwyd Uwch Gynghrair yn y gogledd. Symudodd Iwan i glwb Bangor yn 2003 a dechreuwyd partneriaeth hynod o lwyddiannus. Bowlwyr cyflym fel arfer oedd wedi arwain y gad ar Dŷ Newydd. Gyda'r gemau yn yr Uwch Gynghrair yn 110 pelawd roedd angen strategaeth newydd. Bu Bangor yn ffodus bod yr 'efeillaid troelli' ar gael. Iwan a'i law chwith o amgylch y wiced a Peter Banham yr 'off spinner' o'r ochr arall. Datblygodd y bartneriaeth, ac yn sydyn enillwyd parch y gwrthwynebwyr. Arafu tempo'r gêm ac, o gofio maint Tŷ Newydd, sawl batiwr gorhyderus yn cael eu dal yn fyr o'r ffin. Mae'r ddau yn ymddeol gyda'i gilydd ac bydd colled ar eu hôl. Yn sicr, y bartneriaeth bowlwyr araf mwyaf llwyddiannus yn y gogledd dros yr 20 mlynedd diwethaf. Caiff y ddau ddioddef cerdded o gwmpas y cae erbyn hyn a cheisio datrys problemau Everton.

Yn yr uwch gynghrair chwaraeodd Iwan 121 o gemau a chipio 207 o wicedi, gyda'i berfformiad gorau o 6-18 yn erbyn yr Wyddgrug. Ni ddywedaf fawr am y batio! Os batiwr 11, batiwr rhif 11 amdani! Ac yn goron i'r cwbwl cymerodd wiced gyda'i belen olaf un. Diolch am ei wasanaeth.





Llun: Richard Birch